Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# 25 mlynedd o ddeddfu yng Nghymru

Mehefin 2024



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6472**
E-bost: **sara.moran2@senedd.cymru**
X: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Cylchlythyr**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2024**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# 25 mlynedd o ddeddfu yng Nghymru

Mehefin 2024


**Arweinyddion prosiect:**
Sara Moran a Josh Hayman

**Golygydd:**
Elfyn Henderson

**Cyfranwyr:**
Adam Cooke, Josh Hayman, Sara Moran, Nia Moss, Tom Douch, Alana MacAskill

**Gwasanaethau Cyfreithiol:**
Aled Evans, Gareth Howells, Gruffydd Lewis, Gruffydd Owen, Kate Rabaiotti, Matthew Richards

# Cynnwys

**Rhagair** ........................................................................................ 6

**Deddfu yng Nghymru: o ddatganoli gweithrediaeth i fodel cadw pwerau** ........................................................................ 9

**Beth yw cyfraith Cymru a sut y dylid ei diffinio?** .........................15

**Atgyfodi'r Gymraeg fel iaith gyfreithiol** .........................................21

**Senedd y DU a deddfu yng Nghymru** ..........................................27

**Cymru yn y Goruchaf Lys** ...............................................................35

**Gadael yr Undeb Ewropeaidd** .........................................................41

**Cyfraith ryngwladol yn y Senedd** ....................................................55

**Dau ddegawd o ddiwygio: sut y mae trafodaethau am setliad cyfansoddiadol Cymru wedi siapio'r Senedd?** ...........................63



# Rhagair

Mae hanes deddfu yng Nghymru yn hanes o roi bywyd newydd i syniad canoloesol.

Parhaodd ‘Cyfraith Hywel’ - system gyfreithiol Cymru a enwyd ar ôl Hywel Dda, Brenin y Deheubarth - tan ganol y 1500au. Dim ond gyda dyfodiad y Cynulliad Cenedlaethol, fel y’i gelwid ar y pryd, yn 1999 y cafodd y cysyniad o gyfraith Cymru ei atgyfodi, gan wneud y pynciau yn y penodau dilynol yn bosibl.

Mae cyfraith gyfoes Cymru yr un mor ddeinamig ag y mae’n wahanol. Diffiniwyd y 25 mlynedd ar hugain diwethaf gan ddeddfwriaeth arloesol, yn amrywio o ailgylchu i roi organau, deddfau arloesol i ganiatáu i bobl bleidleisio’n 16 oed, proses ddiwygio etholiadol wedi’i chynllunio i greu Senedd gryfach, mwy cynrychioliadol, a llu o reoliadau brys mewn ymateb i’r pandemig iechyd byd-eang.

Wrth i Gymru a’r byd ehangach o’n cwmpas barhau i newid, felly hefyd ein corff unigryw o gyfreithiau. Roedd trosglwyddo pwerau o San Steffan i Gymru ar ôl refferendwm 2011 yn garreg filltir fawr i gyfraith Cymru, felly hefyd ymadawiad y DU â’r Undeb Ewropeaidd a Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) a basiwyd yn ddiweddar sy’n caniatáu ethol 96 o Aelodau’r Senedd yn dilyn Etholiad 2026.

Mae’r holl ddatblygiadau allweddol hyn a mwy i’w gweld yn y cyhoeddiad arbennig hwn i nodi 25 mlynedd o ddeddfu yng Nghymru. Fel aelod o’r Cynulliad Cyntaf yn 1999 rwyf wedi cael profiad uniongyrchol o’r daith y tu mewn a’r tu allan i’r llywodraeth, a hynny o Gadair y Llywydd yn ogystal â meinciau’r wrthblaid. Rwy’n gobeithio, wrth droi dalennau’r penodau amrywiol a diddorol hyn, y bydd y darllenwyr hefyd yn gallu profi’r daith honno drostynt eu hunain.

Fel Llywydd, rwy'n ddiolchgar i Ymchwil y Senedd am gynhyrchu'r rhifyn hwn i ddathlu pen-blwydd y Senedd, yn ogystal ag am ei ymroddiad a'i arbenigedd parhaus - hebddo, ni fyddai gwaith ein Senedd ar greu deddfau sy'n gwasanaethu pobl Cymru yn bosibl.



Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS
Llywydd

**Ynglŷn â'r llun:**

Edrych drwy ganllaw grisiau'r Pierhead.



# Deddfu yng Nghymru: o ddatganoli gweithrediaeth i fodel cadw pwerau

Josh Hayman



Mae'r ffordd y caiff deddfau eu gwneud yng Nghymru wedi newid mwy yn ystod y 25 mlynedd diwethaf nag yn unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig.

O ddechreuad y Cynulliad fel sefydliad a oedd yn gwneud is-ddeddfwriaeth yn unig, mae'r Senedd wedi esblygu i fod yn ddeddfwrfa gyflawn, gan basio deddfwriaeth sylfaenol a gosod trethi ar gyfer Cymru.

Yn yr erthygl hon trafodir y gwahanol gyfnodau deddfu yn hanes y Senedd a sut y mae hyn wedi datblygu dros y chwarter canrif ddiwethaf.

## 1999-2007: Datganoli Gweithrediaeth

Sefydlwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel gweithrediaeth i ddechrau, heb unrhyw raniad rhwng y llywodraeth a'r ddeddfwrfa. Roedd yn gallu gwneud is-ddeddfwriaeth gyda phwerau a roddwyd iddo o dan Ddeddfau Senedd y DU.

Cyfraith a grëwyd gan Weinidogion (neu gyrff eraill) o dan bwerau a roddwyd iddynt gan ddarn o ddeddfwriaeth sylfaenol (megis Deddf) yw is-ddeddfwriaeth. Cafodd pwerau cychwynnol y Cynulliad i wneud deddfwriaeth eu nodi mewn cyfres o **Orchmynion Trosglwyddo Swyddogaethau** (symud swyddogaethau oddi wrth Weinidogion y DU) ac mewn Deddfau dilynol a basiwyd gan Senedd y DU.

Roedd y math hwn o ddatganoli yn cyfyngu ar allu'r Cynulliad i wneud penderfyniadau polisi gan y byddai angen iddo nodi pŵer perthnasol yn gyntaf. Fodd bynnag, ni wnaeth hynny atal y Cynulliad rhag gwneud rhai newidiadau sylweddol i bolisi cyhoeddus yng Nghymru yn ystod y cyfnod 1999-2007.

Fe wnaeth **Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 2) (Cymru) 2004** newid y ffordd yr aseswyd disgyblion ysgol yn eu blwyddyn olaf yn yr ysgol gynradd. Dilëwyd y profion TASau ac, yn eu lle, caniatawyd i athrawon asesu galluoedd disgyblion.

Pasiodd y Cynulliad hefyd **Orchymyn Personau Digartref (Angen Blaenoriaethol) (Cymru) 2001**. Ehangodd y Gorchymyn y cymhwystra ar gyfer angen blaenoriaethol am dai i bobl ifanc 16 a 17 oed, pobl sy'n ffoi rhag trais domestig a phobl a oedd yn ddigartref ar ôl gadael y lluoedd arfog.

## 2007-18: Pwerau deddfu sylfaenol

Trawsnewidiwyd y broses ddeddfu yng Nghymru gan **Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006**, a oedd yn darparu ar gyfer gwahanu'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru drwy gyfraith (roedd y Cynulliad **wedi cytuno ar raniad de facto** yn 2002). Cyflwynwyd math o bŵer deddfu sylfaenol, a alwyd yn Fesurau gan y Cynulliad, am y tro cyntaf.

Roedd modd i'r Cynulliad basio Mesurau mewn **20 o feysydd polisi**. Rhannwyd y meysydd yn 'faterion'. Ychwanegwyd pob 'mater' fesul tipyn. Gwnaed hyn drwy Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol yr oedd yn rhaid i'r Cynulliad a dau Dŷ Senedd y DU ei basio.

**Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008** oedd y darn cyntaf o ddeddfwriaeth sylfaenol i gael ei basio gan y Cynulliad. Roedd y Mesur yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i'r GIG ystyried setlo hawliadau yn sgil esgeuluster clinigol gwerth is heb orfod cymryd camau cyfreithiol ffurfiol.

Ymhlith y Mesurau eraill a basiwyd gan y Cynulliad roedd **Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011**, a sefydlodd y swydd Comisiynydd y Gymraeg ac a alluogodd i Safonau'r Gymraeg gael eu datblygu; **Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011**, a oedd yn integreiddio dyletswyddau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i gyfraith ddomestig Cymru; a Mesurau i sefydlu **Bwrdd Taliadau a Chomisiynydd Safonau** y Cynulliad.

Yn 2011, yn dilyn refferendwm, cafodd y Cynulliad bwerau deddfu sylfaenol llawn dros **20 o bynciau**. Diflannodd y weithdrefn Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol. Nawr gallai'r Cynulliad basio Biliau'r Cynulliad heb fod gan Senedd y DU unrhyw rôl yn y broses ddeddfwriaethol. Ar ddiwedd y broses rhoddir Cydsyniad Brenhinol i'r Bil gan y Frenhines. Ar y cam hwnnw, daw'n Ddeddf.

Gyda'r pwerau newydd hyn, aeth y Cynulliad ati i weithio ar rai o'r darnau mwyaf arwyddocaol o ddeddfwriaeth a basiwyd yn hanes datganoli. Pasiwyd 29 o Ddeddfau rhwng 2011 a 2016, gan gynnwys y canlynol:

**Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) 2012** oedd y Ddeddf gyntaf i gael Cydsyniad Brenhinol.

Fe wnaeth **Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013** gyflwyno system i optio allan o roi organau a meinwe yng Nghymru.

Yn sgil **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** sefydlwyd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a rhoddwyd dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i sicrhau bod anghenion y boblogaeth bresennol yn cael eu diwallu heb beryglu anghenion cenedlaethau'r dyfodol.

Mae **Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016** yn amlinellu'r fframwaith cyfreithiol sydd ei angen ar gyfer casglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru.

## 2018-nawr: Model cadw pwerau ar gyfer datganoli

Digwyddodd y diwygiad diweddaraf i bwerau deddfwriaethol y Senedd ym mis Ebrill 2018. Tan hynny, roedd y Senedd yn gweithredu ar sail model rhoi pwerau. Roedd hyn yn golygu mai dim ond mewn meysydd diffiniedig y gallai'r Senedd ddeddfu. Os nad oedd rhywbeth wedi'i restru fel "pwnc", yna nid oedd o fewn "cymhwysedd deddfwriaethol" y Senedd (ei chylch gwaith ar gyfer deddfu).

Ym mis Ebrill 2018, newidiwyd y model i **fodel cadw pwerau**. O dan y model hwn, mae'r rhagdybiaeth yn cael ei gwrthdroi. Mae pob maes o fewn y cymhwysedd deddfwriaethol oni bai ei fod wedi'i "gadw'n ôl" ar gyfer Senedd y DU. Mae rhai **cyfyngiadau cyffredinol** hefyd, ond mae popeth arall o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Roedd y newid hwn i fodel cadw pwerau yn argymhelliad allweddol a wnaed gan **Gomisiwn Richard** a **Chomisiwn Silk** ill dau ac a gyflwynwyd drwy **Ddeddf Cymru 2017**. Bwriad y model oedd creu "**mwy o sicrwydd**" ynghylch yr hyn sydd wedi'i ddatganoli a'r hyn nad yw wedi'i ddatganoli, gan arwain at lai o atgyfeiriadau i'r Goruchaf Lys ac a fyddai felly'n helpu i greu setliad datganoli "**a fydd yn fwy ymarferol i'r rheini sy'n gorfod gweithio oddi mewn iddo**". Mewn gwirionedd, **mae'r anghytundeb ynghylch cymhwysedd** rhwng Llywodraeth y DU a Chymru wedi parhau.

Yn y cyfnod hwn, mae'r Senedd wedi pasio rhai darnau pwysig o ddeddfwriaeth, gan gynnwys y canlynol:

**Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020** sy'n dileu'r amddiffyniad o 'gosb resymol' i rieni (neu'r rhai sy'n gweithredu in loco parentis) sy'n cael eu cyhuddo o "ymosodiad cyffredin" ar blentyn.

**Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020** a wnaeth ailenwi Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Senedd Cymru, gostwng yr oedran pleidleisio ar gyfer etholiadau'r Senedd a llywodraeth leol i 16, ac ehangu'r etholfraint i gynnwys dinasyddion tramor cymwys.

**Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023** sy'n gosod dyletswydd statudol ar rai cyrff cyhoeddus i ystyried caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol. Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ddod i gonsensws neu gyfaddawd â'u hundebau llafur cydnabyddedig wrth osod eu hamcanion llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## Proses, nid digwyddiad

Dros y 25 mlynedd o ddatganoli, mae gallu'r Senedd i basio deddfau wedi newid ac esblygu droeon. Mae'r model cadw pwerau a gyflwynwyd yn 2018 i fod i greu "**setliad datganoli mwy eglur, sefydlog a hirhoedlog i Gymru**". Ond nid yw hyn wedi atal y sgwrs am ddyfodol cyfansoddiadol Cymru.

Mae'r **Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru**, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'i **Chytundeb Cydweithredu â Phlaid Cymru**, wedi galw am ddatganoli pellach mewn meysydd fel plismona, cyfiawnder a gwasanaethau rheilffyrdd.

Mae ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd yn 2020 hefyd wedi cael effaith sylweddol ar ddeddfu yng Nghymru ac ar draws y DU. Mae ein herthygl Gadael yr Undeb Ewropeaidd yn edrych ar hyn yn fanylach.

Mae'n amlwg bod disgrifiad enwog Ron Davies o ddatganoli fel "proses, nid digwyddiad" wedi diffinio 25 mlynedd gyntaf y Senedd.


**Ynglŷn â'r llun:**

Siambr y Senedd o'r tu mewn yn edrych i fyny at y golau y tu allan.



# Beth yw cyfraith Cymru a sut y dylid ei diffinio?

Josh Hayman




Mae Cymru wedi gweithredu o fewn awdurdodaeth gyfreithiol ar y cyd â Lloegr ers bron i 500 mlynedd. Ers canrifoedd, mae hyn wedi gweithio'n gymharol ddidrafferth, ond wrth i gyfraith Cymru a Lloegr ymwahanu fwy dros 25 mlynedd o ddatganoli, bu galwadau cynyddol am gydnabod corff o gyfreithiau Cymru neu am awdurdodaeth gyfreithiol wahanol i Gymru.

Mae'r erthygl hon yn edrych ar y dadleuon o blaid ac yn erbyn unrhyw newid, ac yn ystyried sut y gellir diffinio cyfraith Cymru.

## Cymru a Lloegr: anomaledd hanesyddol?

Gellir **olrhain** hanes cyfreithiol Cymru â Lloegr i ddiwedd y drydedd ganrif ar ddeg. Roedd diwygiadau yn yr **unfed ganrif ar bymtheg** yn gam arwyddocaol yn y broses hon, wrth i Ddeddfau Cyfreithiau Cymru 1535 a 1542 ymestyn cyfraith Lloegr i Gymru. Er i rai gwahaniaethau barhau rhwng Cymru a Lloegr ar ôl y diwygiadau hyn, yn sgil **diddymu Llys y Sesiwn Fawr** ym 1830 daeth trefniadau llywodraethu a chyfiawnder yn Nghymru yn gyson â'r trefniadau yn Lloegr.

Mae hyn yn wahanol i'r sefyllfa yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, lle mae gan bob tiriogaeth ei hawdurdodaeth gyfreithiol ei hun. Llysoedd y gwledydd hyn sy'n gorfodi'r cyfreithiau a wneir ar eu cyfer gan eu deddfwrfeydd.



## A oes y fath beth â chyfraith Cymru?

Mae'r cyd-destun hanesyddol unigryw hwn yn golygu, yn yr awdurdodaeth gyfreithiol sengl hon, **bod rhai wedi dadlau nad yw'r fath beth â "chyfraith Cymru"** yn bosibl ac mai dim ond un gyfraith sydd: cyfraith Cymru a Lloegr.

Nod y gwelliannau i **Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006** a wnaed gan **Ddeddf Cymru 2017** oedd ceisio cydnabod bodolaeth cyfraith Cymru drwy fewnosod adran newydd A2, sy'n datgan:

> **Recognition of Welsh law**
>
> (1) The law that applies in Wales includes a body of Welsh law made by the Senedd and the Welsh Ministers.
>
> (2) The purpose of this section is, with due regard to the other provisions of this Act, to recognise the ability of the Senedd and the Welsh Ministers to make law forming part of the law of England and Wales.

Fodd bynnag, er bod corff o gyfreithiau Cymru a wnaed gan y Senedd a Gweinidogion Cymru, mae'n dal i fod yn rhan o gyfraith Cymru a Lloegr.

Er nad oedd y gwahaniaeth hwn yn broblem sylweddol am y 450 mlynedd gyntaf o'r awdurdodaeth, mae sefydlu datganoli yng Nghymru a'i ddatblygiad wedi **codi cwestiynau** ynghylch a ddylai swyddogaethau barnwrol gael eu datganoli hefyd.

## Un awdurdodaeth: dwy ddeddfwrfa

Mae sefydlu datganoli yng Nghymru, ac yn arbennig y pwerau deddfu sylfaenol sydd gan y Senedd nawr, yn golygu bod corff cynyddol o gyfreithiau sy'n gymwys yng Nghymru yn unig.

Er bod Deddfau'r Senedd yn berthnasol i Gymru yn unig, maent yn 'ymestyn' i Gymru a Lloegr. Mae hyn yn golygu y gall llysoedd yn Lloegr hefyd **ymdrin ag ymgyfreitha sy'n ymwneud â chyfreithiau sy'n gymwys yng Nghymru yn unig** ac i'r gwrthwyneb.

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y gallai **llysoedd yn Lloegr** a barnwyr â llai o brofiad o Gymru neu'r cyfreithiau a grëwyd gan y Senedd benderfynu ar achosion sy'n ymwneud â materion sy'n gysylltiedig â Chymru yn unig.

Bu gwahaniaeth rhwng y gyfraith a wnaed yn Senedd Cymru a Senedd y DU (mewn perthynas â Lloegr) ar faterion sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, ac mae hyn yn debygol o gynyddu yn y dyfodol. Mae'r gwahaniaeth hwn wedi gwneud i rai gwleidyddion, sylwebwyr ac **academyddion** awgrymu bod angen newid yr awdurdodaeth fel y saif ar hyn o bryd.

## Opsiynau ar gyfer diwygio: ar wahân neu wahanol?

Ystyriwyd y mater hwn gan **Bwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol** y Cynulliad ar y pryd ac mewn **ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru** yn 2012 ar ôl i'r Cynulliad gael pwerau deddfu sylfaenol llawn yn refferendwm 2011. Daeth y ddau i'r casgliad nad dyma'r amser i newid, ond ailgododd trafodaethau am yr awdurdodaeth gyfreithiol wrth ystyried yr hyn a fyddai'n dod yn Ddeddf Cymru 2017, ac yn sgil newid i fodel cadw pwerau yn 2018.

Mae dau opsiwn wedi'u cynnig ar gyfer newid. Mae rhai wedi galw am **wahaniad llwyr rhwng Cymru a Lloegr** fel ardaloedd cyfreithiol, gyda systemau llysoedd a phroffesiynau cyfreithiol ar wahân a datganoli trefniadau gweinyddu cyfiawnder. Er enghraifft, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y **Bil Llywodraeth a Chyfraith Cymru drafft** yn 2016, a gynigiodd wahanu Cymru a Lloegr yn llwyr fel awdurdodaethau cyfreithiol.

Dewis arall fyddai symud tuag at awdurdodaeth 'wahanol', a fyddai'n cydnabod y gwahaniaeth rhwng cyfraith Cymru a chyfraith Lloegr, tra'n cynnal system gweinyddiaeth farnwrol unedig. Dadleuwyd y gallai hyn gael gwared ar rai o'r "**anghyfleusterau y byddai gwahaniad cyflawn o'r fath yn ei achosi**" o ganlyniad i'r ffaith bod cryn dipyn o gyfreithiau yn parhau i fod yn berthnasol yn y ddwy wlad, yn ogystal â chydnabod y ffaith bod y cyrff gwahanol o gyfreithiau yn ehangu.

## Cynnal y status quo

Mae Llywodraeth y DU wedi dadlau'n gryf o blaid parhau ag awdurdodaeth Cymru a Lloegr, gan ddadlau mai "**awdurdodaeth sengl yw'r ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau cyfiawnder ledled Cymru a Lloegr**".

Yn y trafodaethau am ddyfodol yr awdurdodaeth yn ystod datblygiad Deddf Cymru 2017, **dywedodd** Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y pryd, Stephen Crabb AS:

> *With the Assembly being given full law-making powers in 2011, there is now a growing body of distinct Welsh law. At present, this makes up a tiny fraction of the overall body of law for England and Wales which has developed over 500 years of legal history.*

Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi tynnu sylw at **gostau posibl** creu awdurdodaeth Gymreig fel rheswm dros gynnal y status quo. Cyfeiriodd y cyn Is-ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder, Chris Philp AS, at amcangyfrifon a wnaed gan Gomisiwn Silk yn 2014 y byddai "cost gynyddrannol ychwanegol creu awdurdodaeth ar wahân tua £100 miliwn y flwyddyn".

Dadleuodd yr Athro Richard Owen yn 2016 y gall canfod y gyfraith sydd ond yn berthnasol i Gymru fod yn "**heriol a dweud y lleiaf**". Mae cyfreithiau sy'n berthnasol i Gymru yn unig wedi'u cydblethu â'r rhai sy'n gymwys ledled Cymru a Lloegr. Gallai'r mater hwn ddod yn fwy cymhleth yng ngoleuni'r **cynnydd ym Miliau'r DU sy'n deddfu mewn meysydd datganoledig**.

**Nododd** cyn Gwnsler Cyffredinol Cymru, Theo Huckle CB, hefyd yr her o fynd ar drywydd awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân heb i Weinidogion Cymru a'r Senedd gael pwerau'n ymwneud â gweinyddu cyfiawnder. Mae'r **Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru**, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2017, yn argymell y dylai pwerau dros gyfiawnder gael eu datganoli'n gyfan gwbl i'r Senedd a Llywodraeth Cymru.


## Beth nesaf o ran y cwestiwn hwn?

Er bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi datganoli cyfiawnder, er mwyn gwneud unrhyw newidiadau byddai angen cefnogaeth Llywodraeth y DU a deddfwriaeth yn Senedd y DU.

Wrth i'r gwahaniaeth rhwng y gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru a'r gyfraith sy'n gymwys yn Lloegr barhau i gynyddu, mae cwestiynau ynghylch a ddylid cynnal awdurdodaeth gyfreithiol ar y cyd sy'n ganrifoedd oed yn annhebygol o ddiflannu.


**Ynglŷn â'r llun:**

Fersiynau Cymraeg a Saesneg o Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) 2012.



# Atgyfodi'r Gymraeg fel iaith gyfreithiol

Nia Moss



Yn sgil creu'r Cynulliad ym 1999, **atgyfodwyd y Gymraeg fel iaith gyfreithiol**. Ers hynny, mae'r Senedd wedi bod yn ddeddfwrfa ddwyieithog sy'n gwneud cyfreithiau o statws cyfartal yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae'r corff o gyfreithiau Cymreig a ddatblygodd yn Gymreig mewn dwy ystyr - o ran eu cynnwys unigryw ac o ran eu hiaith. Mae drafftwyr, cyfreithwyr, cyfieithwyr, Aelodau a swyddogion wedi chwarae eu rhan yn y gwaith o sicrhau bod cyfraith Cymru ar gael i ddinasyddion yn y ddwy iaith swyddogol.

Mae datblygiad y Gymraeg fel iaith gyfreithiol fodern wedi bod yn hollbwysig i stori deddfu 25 mlynedd y Senedd.

## Statws cyfartal

Mae **Deddf Llywodraeth Cymru 2006** yn ymgorffori yn y gyfraith yr egwyddor, pan wneir deddfwriaeth yn ddwyieithog, y dylid trin y testunau Cymraeg a Saesneg yn gyfartal at bob diben. Ailddatganwyd yr egwyddor bwysig hon yn **Neddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019**.

Adlewyrchir y statws cyfartal hwn yn y rheolau, y gweithdrefnau a'r canllawiau a ddatblygwyd yn y Senedd a Llywodraeth Cymru ar sut y dylid gwneud cyfreithiau. Er enghraifft:

- dywed **Rheolau Sefydlog y Senedd**, sy'n llywodraethu sut y mae'r Senedd yn cael ei rhedeg, ei bod yn rhaid cyflwyno Bil "yn Gymraeg a Saesneg" (ac eithrio mewn achosion penodol iawn) a bod yn rhaid i bwyllgor a gaiff ei greu i edrych ar is-ddeddfwriaeth adrodd ynghylch a ddylai'r Senedd roi sylw arbennig i "anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg" wrth graffu ar gyfreithiau;
- noda llawlyfrau a ddatblygir gan Lywodraeth Cymru **ar sut y dylid drafftio Biliau** ac **is-ddeddfwriaeth** y dylai'r rhai sy'n drafftio sicrhau bod y ddau destun "**yn cael yr un effaith gyfreithiol**" ac y dylid cymryd camau i sicrhau "**nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg**"; a
- mae gwaith craffu, diwygio a phleidleisio ar ddeddfwriaeth yn digwydd yn ddwyieithog yn y Senedd ac mae deunyddiau newydd, megis **geirfaoedd dwyieithog ar gyfer Biliau**, wedi helpu i gefnogi'r gwaith craffu yn y ddwy iaith.

Fodd bynnag, **fel y nododd Comisiwn y Gyfraith**:

*Mae system lle gwneir cyfreithiau mewn dwy iaith sy'n cael eu trin i bob pwrpas fel rhai ac iddynt statws cyfartal wedi creu heriau newydd i'r rheini y mae gofyn iddynt eu dehongli a'u gweithredu.*

## Yr her o ddehongli deddfwriaeth ddwyieithog

Mae'r her o ran sut y dylai dinasyddion a'r llysoedd ddehongli deddfwriaeth sydd wedi'i hysgrifennu mewn dwy iaith wahanol yn broblem gyffredin mewn systemau â chyfreithiau dwyieithog. Beth sy'n digwydd os yw'n ymddangos bod gan y geiriau a ddefnyddir mewn ieithoedd gwahanol ystyron neu bwyslais gwahanol?

Ystyriodd Comisiwn y Gyfraith y mater hwn **yn ei adolygiad o hygyrchedd cyfraith Cymru yn 2016**. Daeth i'r casgliad ei bod yn rhaid i'r rhai sydd am ddeall ystyr cyfraith ddwyieithog yng Nghymru ystyried y testun yn y ddwy iaith er mwyn cael ateb. Dywedodd y byddai dibynnu ar un iaith yn unig yn tanseilio statws cyfartal y Gymraeg a'r Saesneg.

Ystyriodd yn fanwl yr hyn a ddylai ddigwydd os nad yw'n bosibl dod o hyd i ystyr cyffredin rhwng y ddwy iaith a daeth i'r casgliad, er mai mater i'r llysoedd yw hyn yn y pen draw, mai'r ffordd orau o fynd ati fyddai ystyried bwriad y Senedd wrth wneud y gyfraith. Mae Llywodraeth Cymru yn cyfeirio'n fwriadol at yr egwyddorion hyn **yn ei Nodiadau Esboniadol** ar gyfer Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019.

Yn 2020, **aethpwyd â'r achos cyntaf i'r Llys Gweinyddol** yn gofyn iddo ystyried gwahaniaethau rhwng fersiynau Cymraeg a Saesneg y gyfraith. **Cafodd y penderfyniad hwn ei wrthdroi yn y Llys Apêl**, ond, wrth ddod i'w ddyfarniad, ystyriodd y Llys y dylid cymhwyso **egwyddorion arferol dehongliad statudol** i ddadansoddi'r testunau Cymraeg a Saesneg ill dau. Daeth i'r casgliad, lle nad oedd modd canfod ystyr cyffredin, y dylai'r llysoedd edrych ar bwrpas a bwriad y Senedd wrth wneud y gyfraith.

**Mae'r ddadl ynglŷn â'r achos hwn a'r arfer y dylai'r llysoedd ei fabwysiadu** wrth ystyried achosion sy'n ymwneud â dehongli deddfwriaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg yn parhau i fod yn destun trafodaeth. **Dywedodd Comisiwn y Gyfraith** y dylai sicrhau bod niferoedd digonol o farnwyr sy'n gallu gweithio yn y Gymraeg ar achosion lle mae gwahaniaethau rhwng y fersiynau Cymraeg a Saesneg fod yn "[d]dyhead hirdymor".

Mae'r achos hwn, a'r dadleuon sy'n deillio ohono, yn tanlinellu pwysigrwydd a chyfrifoldeb y Senedd i graffu'n gyfartal ar fersiynau Cymraeg a Saesneg y ddeddfwriaeth.

## Hygyrchedd y gyfraith Gymraeg

Wrth ddatblygu'r Gymraeg fel iaith gyfreithiol fodern, mae Llywodraeth Cymru a'r Senedd hefyd wedi gorfod mynd i'r afael â sut i sicrhau bod cyfraith Gymraeg yn hygyrch i ddinasyddion.

### Datblygu terminoleg

Mae drafftwyr a chyfieithwyr wedi gorfod datblygu terminoleg Gymraeg newydd a chyson. Mae **gwefan BydTerm Cymru** a **geirfaoedd drafftio deddfwriaethol** wedi'u datblygu gan Lywodraeth Cymru i helpu gyda'r dasg hon. **Mae Atodlen 1 i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019** yn nodi am y tro cyntaf restr ddwyieithog o dermau ac ymadroddion cyfreithiol allweddol diffiniedig.

### Cyfraith sy'n gyfredol

Mae mynediad i fersiynau cyfredol o ddeddfwriaeth ddiwygiedig sydd ar gael i'r cyhoedd yn Gymraeg hefyd wedi bod yn her ac mae'n rhan o **raglen gyntaf Llywodraeth Cymru** i wella hygyrchedd y gyfraith yng Nghymru.

### Ysgrifennu cyfreithiau yn y Gymraeg

Mae sut y dylid ysgrifennu neu ddrafftio'r gyfraith yn y Gymraeg, er mwyn sicrhau ei bod yn glir ac yn hawdd ei deall, wedi bod yn ffocws parhaus i'r rhai sy'n drafftio ac yn craffu ar gyfraith yn y Senedd.

Pwysleisiwyd yr angen i'r gyfraith beidio â chael ei "chyfieithu'n gaeth" ond i fod yn glir ac yr un mor "ddefnyddiadwy" gan **Gomisiwn y Gyfraith, cymdeithas sifil** a chan **bwyllgorau'r Senedd**.

Mae rhywfaint o ddeddfwriaeth ddwyieithog yn cael ei chyd-ddrafftio yn y Gymraeg a'r Saesneg ond yn aml mae fersiynau Cymraeg yn cael eu cyfieithu o'r Saesneg gan ieithyddion deddfwriaethol, sy'n arbenigwyr mewn cyfieithu'r gyfraith.

Un o'r prif alwadau fu'r angen i neilltuo digon o amser yn y broses o ysgrifennu deddfwriaeth ar gyfer cyfieithiadau drafft o ddeddfwriaeth:

- i'w hystyried fel rhan o broses ailadroddol o ddatblygu Bil; a
- eu gwirio i sicrhau bod ganddynt yr un ystyr.

**Galwodd Comisiwn y Gyfraith i'r amser sydd ar gael i gyfieithu** ac ystyried y testun yn y ddwy iaith i gael ei amddiffyn yn "gadarn". Galwodd un o **bwyllgorau blaenorol y Senedd** hefyd ar Lywodraeth Cymru i roi cynlluniau hirdymor ar waith i gynyddu cyfran y Biliau sy'n cael eu cyd-ddrafftio.

## Y Senedd fel gwarcheidwad

Yn ogystal â phasio cyfreithiau dwyieithog, mae'r Senedd a'i phwyllgorau yn gweithredu fel gwarcheidwaid statws cyfartal y gyfraith, gan sicrhau bod y gyfraith a gyflwynir yn y ddwy iaith yn bodloni'r rheolau a'r safonau a ddisgwylir.

Mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad presennol yn craffu ar a yw is-ddeddfwriaeth a wneir yn y Gymraeg a'r Saesneg yn gyson. **Mae'n cyhoeddi adroddiadau sy'n tynnu sylw at anghysondebau** ac yn gofyn i Lywodraeth Cymru egluro'r ystyr.

Caiff cyfreithiau a wneir yn San Steffan mewn meysydd datganoledig eu gwneud yn Saesneg yn unig. Mae'r **Pwyllgor wedi codi pryderon** am effeithiau hyn ar fynediad dinasyddion i gyfreithiau yn y Gymraeg. Mae hefyd yn parhau i graffu ar **raglen Llywodraeth Cymru** ar gyfer gwella hygyrchedd y gyfraith yng Nghymru.

## Awdurdodaeth wirioneddol ddwyieithog?

Yn ddi-os, mae creu'r Senedd 25 mlynedd yn ôl wedi arwain at adfywio'r Gymraeg fel iaith gyfreithiol. Mae ei statws cyfartal wedi'i ymgorffori yn y gyfraith ac wedi'i ymgorffori yn y rheolau sy'n llywodraethu sut y mae cyfreithiau'n cael eu gwneud yng Nghymru.


Mae effaith ehangach y statws cyfartal hwn hefyd yn amlwg yn natblygiad drafftwyr ac ieithyddion deddfwriaethol Cymraeg, yn natblygiad terminoleg gyfreithiol Gymraeg ac mewn galwadau am fwy o fyfyrwyr y gyfraith, cyfreithwyr a barnwyr sy'n medru'r Gymraeg.

Er hynny, erys yr angen am ffocws parhaus ar sicrhau bod cyfraith ddwyieithog yn wirioneddol gyfartal a hygyrch. **Mae rhaglen Llywodraeth Cymru ar hygyrchedd cyfraith Cymru** yn pennu sawl amcan ar gyfer gwell darpariaeth o'r gyfraith yn Gymraeg. Mae pwyllgorau ac Aelodau'r Senedd yn parhau i alw am sicrhau bod statws cyfartal yn **cael ei anrhydeddu'n briodol** yn y cyfreithiau a gaiff eu gwneud.

Yn ystod ei 25 mlynedd gyntaf, mae'r Senedd wedi gosod y seiliau i'r Gymraeg barhau fel iaith gyfreithiol. Bydd cyflawni statws gwirioneddol gyfartal yn fater allweddol yn y 25 mlynedd nesaf yn hanes y Senedd.

**▼ Ynglŷn â'r llun:**

Nenfwd gwydr y Siambr.



# Senedd y DU a deddfu yng Nghymru

Adam Cooke



Drwy gydol y 25 mlynedd ers ei sefydlu, mae perthynas Senedd Cymru â Senedd y DU wedi bod yn elfen hollbwysig o ddeddfu yng Nghymru.

Mae'r erthygl hon yn edrych ar y berthynas hon ers 1999 ac yn ystyried, hyd yn oed gyda phwerau datganoledig cynyddol y Senedd, arwyddocâd parhaus Senedd y DU.

## Blynyddoedd cynnar y Cynulliad

Ym 1999, sefydlwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y pryd fel un "corff corfforedig" – nid oedd unrhyw raniad ffurfiol rhwng y weithrediaeth a'r ddeddfwrfa.

Nid oedd gan y Cynulliad bwerau i wneud deddfwriaeth sylfaenol a dim ond is-ddeddfwriaeth y gallai ei gwneud, a hynny mewn meysydd a oedd wedi'u datganoli drwy **Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998**. Roedd hyn yn golygu bod Senedd y DU yn parhau i fod yn gyfrifol am basio deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer Cymru.

**Beth yw is-ddeddfwriaeth?**

Cyfraith a wneir gan Weinidogion (neu gyrff eraill) o dan bwerau a roddir iddynt gan ddeddfwriaeth sylfaenol (Deddf fel arfer) yw is-ddeddfwriaeth, a elwir hefyd yn ddeddfwriaeth ddirprwyedig.

Yn ystod ei ddau dymor cyntaf, defnyddiodd y Cynulliad ei bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth er mwyn rhoi newidiadau polisi ar waith ac mae hyn yn cael ei egluro yn yr erthygl Deddfu yng Nghymru yn y gyfres hon.

Parhaodd y ddau sefydliad i gynnal perthynas agos ac weithiau byddai Senedd y DU yn pasio Deddfau penodol ar gyfer Cymru a Deddfau a oedd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer Cymru.

Er enghraifft, yn 2001 pasiodd Senedd y DU **Ddeddf Comisiynydd Plant Cymru** yn dilyn **argymhellion gan un o bwyllgorau'r Cynulliad**. Fe wnaeth y Ddeddf honno ddiwygio **Deddf Safonau Gofal 2000**, a oedd wedi sefydlu swydd y Comisiynydd, a nodi ei gylch gwaith yn unol ag argymhellion y Pwyllgor.

Roedd y Cynulliad yn dibynnu ar San Steffan i neilltuo amser deddfwriaethol yn ystod y cyfnod hwn. Roedd cyfathrebu effeithiol rhwng Aelodau Seneddol ac Aelodau'r Cynulliad **yn bwysig** er mwyn sicrhau bod materion Cymreig yn cael eu hystyried yn neddfwriaeth San Steffan. Er bod pwyllgorau'r Cynulliad yn ystyried

cynigion deddfwriaethol, nid oedd unrhyw ddull ffurfiol i ganiatáu iddynt fynegi eu barn ar ddeddfwriaeth a oedd yn mynd drwy Senedd y DU.

## Cyflwyno pwerau deddfu sylfaenol

Yn 2002, sefydlodd Prif Weinidog Cymru, Rhodri Morgan AC, y **Comisiwn ar Bwerau a Threfniadau Etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru** (Comisiwn Richard).

**Canfu** Comisiwn Richard fod pwerau'r Cynulliad a (de facto) phwerau Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi datblygu mewn ffordd ad hoc, ac roedd y ddau gorff wedi "cyfrannu'n helaeth" at ddatblygu deddfwriaeth, gan gynnwys drwy weithio gyda Senedd y DU.

Argymhellodd y Comisiwn y dylid rhoi pwerau deddfu sylfaenol i'r Cynulliad.

Fe wnaeth **Deddf Llywodraeth Cymru 2006** a ddeilliodd o hynny newid pwerau deddfwriaethol y Cynulliad, drwy:

- greu rhaniad ffurfiol rhwng y ddeddfwrfa (Cynulliad) a'r weithrediaeth (Llywodraeth Cynulliad Cymru);
- rhoi'r gallu i'r Cynulliad basio pwerau deddfu sylfaenol (a elwir yn Fesurau) yn amodol ar Orchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol o fewn **20 o feysydd rhestredig**;
- rhoi pwerau deddfu sylfaenol llawn i'r Cynulliad yn y meysydd rhestredig hynny, yn amodol ar refferendwm.

Roedd y system Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol yn gofyn am gydweithio rhwng y Cynulliad a Senedd y DU. Roedd yn rhaid i'r Cynulliad a dau Dŷ Senedd y DU gydsynio i Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol er mwyn i'r Cynulliad allu pasio Mesur. Roedd gan bwyllgorau Senedd y DU, megis y Pwyllgor Materion Cymreig a Phwyllgor y Cyfansoddiad, **rôl hefyd** o ran gwaith craffu cyn deddfu ar Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol, ac felly hefyd bwyllgorau'r Cynulliad.

Gellid datganoli pwerau deddfu i'r Cynulliad drwy ddeddfwriaeth San Steffan hefyd, fel y digwyddodd gyda **Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009** a roddodd bwerau i'r Cynulliad greu "Mesurau ar fynediad i'r arfordir". Yn wahanol i Orchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol, nid oedd yn rhaid i bwerau a ddatganolwyd drwy Filiau San Steffan ddod o fewn yr 20 maes datganoledig a restrir yn Neddf Llywodraeth Cymru.

## Cynnydd mewn pwerau deddfwriaethol – refferendwm 2011

Mewn refferendwm yn 2011, pleidleisiodd 63.5% **o blaid rhoi pwerau deddfu llawn i'r Cynulliad** yn y meysydd yr oedd eisoes yn gyfrifol amdanynt. Roedd hyn yn golygu y gallai'r Cynulliad basio deddfau yn y meysydd hyn "**heb orfod troi at San Steffan**".

Newidiodd hyn y berthynas rhwng y Cynulliad a Senedd y DU yn sylweddol, gan ddod â'r broses Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol i ben.

Fodd bynnag, fel y **rhagwelwyd gan Gomisiwn Richard,** ar ôl i'r Cynulliad gael pwerau sylfaenol, parhaodd San Steffan i "ddeddfu'n helaeth ar gyfer Cymru mewn perthynas â materion datganoledig a heb eu datganoli". Roedd sofraniaeth seneddol yn golygu nad oedd y ffaith bod gan y Cynulliad y gallu i basio deddfwriaeth sylfaenol yn effeithio ar bwerau Senedd y DU.

## Cydsyniad deddfwriaethol: gofod a rennir ar gyfer deddfu

Er y gall Senedd y DU barhau i ddeddfu ar faterion datganoledig, noda **Confensiwn Sewel** na ddylai wneud hynny fel arfer heb gydsyniad y Senedd.

**Beth yw Confensiwn Sewel?**

Cyfres o brosesau a gweithdrefnau sy'n caniatáu i ddeddfwrfa ddatganoledig benderfynu a ddylid rhoi neu atal ei chydsyniad i Fil y DU sy'n cwmpasu rhyw ran o bwerau datganoledig yw Confensiwn Sewel.

Noda'r Confensiwn na fydd Senedd y DU fel arfer yn deddfu os bydd deddfwrfa ddatganoledig yn atal ei chydsyniad, ond gall ddewis gwneud hynny os bydd yn dymuno.

Mae **Deddf Cymru 2017** yn rhoi Confensiwn Sewel mewn statud mewn perthynas â Chymru.

Yn 2017, **dyfarnodd y Goruchaf Lys** nad oes modd gorfodi Confensiwn Sewel drwy gamau cyfreithiol.

Dywedodd y Llys:

> *The Sewel Convention has an important role in facilitating harmonious relationships between the UK Parliament and the devolved legislatures. But the policing of its scope and the manner of its operation does not lie within the constitutional remit of the judiciary, which is to protect the rule of law.*

Roedd y dyfarniad yn arwyddocaol gan sicrhau nad oedd unrhyw amheuaeth mai dim ond confensiwn gwleidyddol yw Confensiwn Sewel ac felly na all y llysoedd ei orfodi.

Pan fo Senedd y DU yn dymuno creu deddfau ar faterion datganoledig, mae'r Senedd yn nodi'n ffurfiol a yw'n cydsynio i hynny drwy **Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol**.

Cyflwynwyd y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf (a chytunwyd arno) yn 2008 ac roedd yn ymwneud â'r **Mesur Addysg a Sgiliau**.

Er nad yw Confensiwn Sewel yn gyfreithiol rwymol, mae atal cydsyniad wedi arwain at, ar adegau, at Lywodraeth y DU i wneud newidiadau. Ym mis Chwefror 2011, **pleidleisiodd y Cynulliad i wrthod** rhoi cydsyniad (am y tro cyntaf) i ran o Fil Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol. Yn sgil hynny, **gwnaeth Llywodraeth y DU ddiwygiadau iddo** "er mwyn parchu penderfyniad y Cynulliad".

Yn sgil ehangu cwmpas pwerau'r Cynulliad gwelwyd cynnydd yn y meysydd yr oedd angen Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol ar eu cyfer.

Yn ystod y Pedwerydd Cynulliad (2011-2016), **pleidleisiwyd ar 36 o Gynigion Cydsyniad Deddfwriaethol**. Ni chytunwyd ar chwech o'r rhain. Ar **bedwar achlysur yn ystod y tymor hwn**, deddfodd Senedd y DU er gwaethaf y ffaith bod y Cynulliad wedi atal ei gydsyniad. Roedd yr anghytundebau'n aml yn ymwneud â ph'un a oedd maes wedi'i ddatganoli i'r Cynulliad neu wedi'i gadw'n ôl ar gyfer Senedd y DU. Cyfrannodd dadleuon o'r fath at ddiwygio'r setliad datganoli.

Yn ystod y Pumed Cynulliad (2016-2021), dwysaodd y dadleuon ynghylch cydsyniad deddfwriaethol yn dilyn pleidlais y DU i adael yr UE. Er enghraifft, fe wnaeth argymhelliad gwreiddiol Llywodraeth Cymru y dylai'r Senedd atal ei chydsyniad i **Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)** arwain at ddiwygiadau a chytundeb rhynglywodraethol rhwng llywodraeth Cymru a llywodraeth y DU.

Cafwyd achos sylweddol o dorri Confensiwn Sewel pan basiodd Senedd y DU **Ddeddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020** yn groes i ddymuniadau'r Senedd (bellach); **dadleuodd pwyllgorau'r Senedd** y byddai'r Ddeddf yn lleihau effaith ymarferol cyfraith Cymru.

## Y berthynas â Senedd y DU yn y Chweched Senedd

Yn y Chweched Senedd (2021-2026) gwelwyd cynnydd yn nifer y Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol; mae 115 o Gynigion Cydsyniad Deddfwriaethol neu Gynigion Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn ymwneud â 47 o Filiau wedi'u gosod hyd yn hyn.

Mae llywodraethau Cymru wedi defnyddio Biliau a gyflwynwyd i Senedd y DU i wneud newidiadau mewn meysydd datganoledig, **gan ddadlau bod** defnyddio Biliau'r DU yn "synhwyrol ac yn fanteisiol" weithiau.

Fodd bynnag, gwelwyd hefyd **gynnydd yn y nifer** o Filiau'r DU sy'n gwneud darpariaeth mewn meysydd datganoledig heb gydsyniad y Senedd. Mynegodd cyn Brif Weinidog Cymru, Mark Drakeford AS, **bryder** bod torri Confensiwn Sewel "bron wedi'i normaleiddio" bellach.

**Dadleuodd** Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad y Senedd fod defnyddio Biliau'r DU i wneud darpariaeth mewn meysydd datganoledig, p'un a yw Llywodraeth Cymru eisiau darpariaeth o'r fath ai peidio, yn creu "diffyg democrataidd" sy'n osgoi swyddogaethau craffu deddfwriaethol y Senedd.

## Pwysigrwydd parhaus


Er bod gan y Senedd lawer mwy o bwerau deddfwriaethol o gymharu â 1999, mae Senedd y DU yn parhau i wneud cyfraniad sylweddol at y gyfraith sy'n ymwneud â meysydd datganoledig yng Nghymru. Erys mae'r berthynas rhwng Cymru a San Steffan yn parhau'n nodwedd allweddol o ddeddfu yng Nghymru.

Mae ymadawiad y DU â'r UE, a'r newidiadau dilynol i gyfansoddiad y DU, wedi arwain at **ffocws o'r newydd** ar sofraniaeth seneddol a chydsyniad deddfwriaethol.




**Ynglŷn â'r llun:**

Byrllysg y Senedd.



# Cymru yn y Goruchaf Lys

Adam Cooke



Dros y 25 mlynedd diwethaf, mae dyfarniadau'r Goruchaf Lys wedi chwarae rhan allweddol yn y ffordd y caiff datganoli a'r broses ddeddfu eu deall a'u gweithredu yng Nghymru.

Yn ogystal â dylanwadu ar weithrediad darnau penodol o ddeddfwriaeth, mae'r achosion hefyd wedi dylanwadu ar y setliad datganoli.

Mae'r erthygl hon yn edrych ar ddyfarniadau allweddol y Goruchaf Lys.

## Pryd y bydd achos yn cyrraedd y Goruchaf Lys?

Mae cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd (ei chylch gwaith i wneud cyfreithiau) yn cael ei ddiffinio yn **Neddf Llywodraeth Cymru 2006**.

Os caiff cymhwysedd deddfwriaethol ei gwestiynu, **rhaid i'r Goruchaf Lys** wneud dyfarniad ar hyd a lled pwerau cyfreithiol y Senedd.

Mae achos yn cyrraedd y Goruchaf Lys pan fydd Bil yn cael ei atgyfeirio iddo gan swyddog y gyfraith. Gall Cwnsler Cyffredinol Cymru (Llywodraeth Cymru) neu Dwrnai Cyffredinol Cymru a Lloegr (Llywodraeth y DU) atgyfeirio Bil ar ôl iddo gael ei basio gan y Senedd a chyn iddo gael ei gyflwyno i gael Cydsyniad Brenhinol.

Gellir cael atgyfeiriadau statudol neu apêl yn ymwneud â "**mater datganoli**", neu apêl achosion o lysoedd is drwy'r broses farnwrol arferol.

## Llwyddiannau cychwynnol Llywodraeth Cymru

Gwnaed dau ddyfarniad cychwynnol gan y Goruchaf Lys o blaid Llywodraeth Cymru, ac roedd goblygiadau sylweddol iddynt o ran dehongli'r setliad datganoli.

### Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru)

Yn 2012, atgyfeiriodd y Twrnai Cyffredinol ar y pryd, Dominic Grieve AS, y **Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru)** i'r Llys. Hwn oedd y tro cyntaf i bwerau o dan **Adran 112 o Ddeddf Llywodraeth Cymru** gael eu defnyddio i atgyfeirio Bil.

Y Bil hwn oedd y cyntaf i gael ei basio gan y Cynulliad ers iddo gael rhagor o bwerau deddfu sylfaenol yn 2011.

Roedd atgyfeiriad y Twrnai Cyffredinol yn ymwneud ag Adrannau 6 a 9 o'r Bil, a oedd yn dileu'r angen i Ysgrifennydd Gwladol y DU gadarnhau is-ddeddfau.

**Dyfarnodd y Goruchaf Lys yn unfrydol** fod gan y Cynulliad y cymhwysedd deddfwriaethol i ddileu pwerau cadarnhau yr Ysgrifennydd Gwladol, gan nodi y byddai'r dileu yn:

> *incidental to, and consequential on, the primary purpose of removing the need for confirmation by the Welsh Ministers of any byelaw made under the scheduled enactments*

ac

> *the primary purpose of the Bill cannot be achieved without that removal.*

**Derbyniwyd y dyfarniad gan y ddwy ochr**, gyda Llywodraeth y DU yn nodi ei fod wedi helpu i ddeall ble mae'r ffin ddatganoli yn gorwedd.

## Bil Sector Amaethyddol (Cymru)

Yn 2013, pasiodd y Cynulliad y **Bil Sector Amaethyddol (Cymru)** mewn ymateb i benderfyniad Llywodraeth y DU i ddiddymu Bwrdd Cyflogau Amaethyddol Cymru a Lloegr. Drwy'r Bil, roedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu cadw system ar gyfer rheoleiddio cyflogau gweithwyr amaethyddol.

Atgyfeiriodd y Twrnai Cyffredinol y Bil i'r Goruchaf Lys, gan ddadlau ei fod yn ymwneud â'r meysydd cyflogaeth a chysylltiadau diwydiannol a gadwyd yn ôl, yn hytrach nag amaethyddiaeth.

**Barnodd y Goruchaf Lys** fod y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, gan benderfynu bod angen edrych y tu hwnt i'r diffiniad o amaethyddiaeth a oedd yn y geiriadur, ac ystyried bwriadau'r Bil. Yn y cyd-destun hwn, roedd y Llys o'r farn bod amaethyddiaeth yn cyfeirio at bob agwedd ar weithgarwch amaethyddol diwydiannol neu economaidd.

Nododd y Llys hefyd nad oedd cyflogaeth na chysylltiadau diwydiannol wedi'u rhestru fel eithriadau i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, tra bod agweddau eraill ar gyflogaeth (megis cynlluniau pensiwn) wedi'u heithrio. Cyfeiriodd at hyn fel tystiolaeth nad oedd unrhyw fwriad gan Senedd y DU i greu cyfyngiadau mwy cyffredinol ar gymhwysedd y Cynulliad yn y maes hwn.

Dyfarnodd y Llys y gallai'r Cynulliad ddeddfu ar bynciau nad ydynt wedi'u nodi fel eithriadau, neu "**bynciau tawel**", ar yr amod bod prif ddiben Bil yn ymwneud yn deg ac yn realistig â phwnc datganoledig.

Cyfeiriodd y cyfreithiwr cyfansoddiadol **Ann Sherlock** at y dyfarniad hwn fel "eglurhad sylweddol" o gymhwysedd y Cynulliad.

Croesawodd y Prif Weinidog Carwyn Jones AC y "**dyfarniad eithriadol o bwysig**", ond awgrymodd fod dryswch ynghylch cymhwysedd yn rheswm dros symud y Cynulliad i fodel cadw pwerau (rhagor o wybodaeth isod).

## Gwthio'r ffiniau

Yn 2015, am y tro cyntaf, dyfarnodd y Goruchaf Lys fod Bil y tu allan i gymhwysedd y Cynulliad.

### Y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru)

**Byddai'r Bil wedi galluogi** Gweinidogion Cymru i adennill costau a wariwyd gan GIG Cymru wrth ddarparu triniaeth i ddioddefwyr clefydau sy'n gysylltiedig ag asbestos. Byddai'r costau hynny'n cael eu hadennill gan bwy bynnag yr oedd yn ofynnol iddo dalu iawndal i'r dioddefwyr.

Cafodd y Bil ei atgyfeirio i'r Goruchaf Lys gan Gwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cymru, Theodore Huckle CF. Hwn oedd **y tro cyntaf i Gwnsler Cyffredinol atgyfeirio** Bil. Er bod y Cwnsler Cyffredinol yn credu bod y Bil o fewn cymhwysedd y Cynulliad, **dywedodd ei fod** yn briodol datrys y mater yn ymwneud â chymhwysedd y Bil hwn cyn i'r Bil ddod i rym, o ystyried bod eraill wedi codi amheuon ynghylch cymhwysedd y Cynulliad. Teimlwyd ei bod yn well i'r Goruchaf Lys ddyfarnu yn y modd hwn, yn hytrach na chaniatáu i'r rhai â buddiannau preifat herio'r Bil ar ôl ei ddeddfu.

**Dyfarnodd y Goruchaf Lys** nad oedd y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a'i fod yn anghydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol oherwydd ei effaith ar hawliau digolledwyr. Fodd bynnag, roedd y barnwyr yn anghytuno ynghylch **maint a chwmpas** y cymhwysedd.

## Newid o fodel rhoi pwerau i fodel cadw pwerau

Dylanwadodd pa mor aml yr oedd deddfwriaeth y Senedd yn cael i hatgyfeirio i'r Goruchaf Lys ar drafodaethau ar ddiwygio'r setliad datganoli.

Argymhellodd **ail adroddiad Comisiwn Silk** y dylid symud o fodel rhoi pwerau i fodel cadw pwerau, ble y "byddai'r setliad yn nodi'n glir derfynau'r cymhwysedd datganoledig" ac y gallai'r sawl sy'n deddfu "wneud hynny'n fwy hyderus".

Nododd Prif Weinidog Cymru, Carwyn Jones AC, **fod Llywodraeth Cymru** "yn llwyr gefnogi" yr argymhelliad, ond rhybuddiodd nad oedd achos dros dynnu pwerau oddi ar y Cynulliad drwy'r broses.

Mynegodd Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad **bryderon** y byddai **Bil Cymru arfaethedig Llywodraeth y DU** wedi trosi'r "pynciau tawel" a nodwyd gan y Llys yn gymalau cadw ac felly wedi arwain at gam yn ôl o ran cymhwysedd, gan wrthdroi'r dyfarniad ar y Bil Sector Amaethyddol (Cymru).

Yn dilyn hynt **Deddf Cymru 2017**, symudodd y Cynulliad i fodel cadw pwerau; roedd pob maes wedi'i ddatganoli, ac eithrio'r rhai a restrir yn **Atodlenni 7A** a **7B**.

Er i hyn arwain at leihad mewn achosion yn y Goruchaf Lys, dengys **achosion ar gymhwysedd** Senedd yr Alban (lle mae'r model cadw pwerau wedi bod ar waith erioed) fod uwchgyfeirio dal yn bosibl.

## Brexit a'r Goruchaf Lys

Ers 2016, mae anghytundebau ynghylch y broses o adael yr UE ac ailsefydlu pwerau wedi arwain at heriau cyfreithiol gan y **llywodraethau datganoledig** a **Llywodraeth y DU** fel ei gilydd. Mae dyfarniadau dilynol wedi arwain at ragor o eglurder pwysig.

Yn benodol, yn 2017 **dyfarnodd y Goruchaf Lys** nad oes modd gorfodi **Confensiwn Sewel** drwy gamau cyfreithiol.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler ein herthygl Gadael yr Undeb Ewropeaidd yn y gyfres hon.

## Dehongli datganoli

Mae rôl y Goruchaf Lys wrth ddehongli'r setliad datganoli yng Nghymru wedi bod, ac yn parhau i fod, yn arwyddocaol. Mewn **trafodaethau a thystiolaeth** ddiweddar yn ymwneud ag a yw **Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol)** o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, cafwyd sawl cyfeiriad at allu'r Goruchaf Lys i weithredu fel canolwr terfynol ar y materion hyn.

Pe bai dadleuon pellach ynghylch ffiniau cyfreithiol yn codi, mae'n debygol y bydd dyfarniadau'r Llys yn chwarae rhan allweddol unwaith eto.

**Ynglŷn â'r llun:**

Cloc y Pierhead.



# Gadael yr Undeb Ewropeaidd

Sara Moran



Pan gyfarfu Cynulliad Cenedlaethol Cymru am y tro cyntaf ar 12 Mai 1999, roedd y DU wedi bod yn un o Aelod-wladwriaethau'r UE ers dros 26 mlynedd.

Am yr 20 mlynedd, 8 mis ac 19 diwrnod cyntaf o'r 25 mlynedd yn ei hanes, roedd y Senedd yn bodoli yng nghyd-destun aelodaeth o'r UE.

Ar 23 Mehefin 2016, **pleidleisiodd Cymru i adael yr UE** o 52.5% i 47.5%.

Roedd y refferendwm yn ddechrau cam cyntaf Brexit – proses ddeddfwriaethol gymhleth i dynnu Aelod-wladwriaeth o'r UE am y tro cyntaf. Ymdriniodd yr ail gam â'r hyn a ddaeth nesaf – sefydlu perthynas newydd rhwng y DU a'r UE sy'n dal yn ei dyddiau cynnar heddiw. Tra bod y ddau gam allweddol hyn yn mynd rhagddynt ar lefel y DU a'r UE, rhoddodd y DU drefniadau newydd ar waith ar gyfer ei marchnad fewnol, ei chysylltiadau rhynglywodraethol ac ar gyfer cyfraith yr UE a oedd yn parhau ar y llyfrau statud.

Fe wnaeth gadael yr UE newid yn sylweddol y ffordd y mae cyfreithiau'n cael eu gwneud yng Nghymru a sut y mae'r broses yn gweithio.

Nid oedd cyfraith yr UE yn gymwys yn awtomatig mwyach a dilëwyd y ddyletswydd ar Weinidogion i gydymffurfio â hi. Roedd yn golygu bod cyfraith ryngwladol wedi disodli cyfraith yr UE fel prif ffynhonnell cyfraith allanol y DU. Rhoddwyd y grym i weinidogion wneud newidiadau i gyfraith yr UE a oedd yn parhau, tra bod **Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020** a **fframweithiau cyffredin** yn ychwanegu dimensiwn pwysig arall at y sefyllfa ar ôl Brexit.

Am y tro cyntaf mewn un lle, rydym yn cyflwyno amserlen y broses o adael yr UE yn y Senedd. Mae pob dyddiad ar y llinell amser:

- yn crynhoi datblygiad allweddol;
- yn esbonio sut y newidiodd y ffordd y caiff cyfraith ei chreu a sut y mae'n gweithio; a/neu
- yn cadarnhau a gafwyd pleidlais yn y Senedd, a chanlyniadau'r bleidlais.

## 23 Mehefin 2016: Cymru yn pleidleisio i adael yr UE

Ar 23 Mehefin 2016, **gofynnwyd i bleidleiswyr y DU**:

> A ddylai'r Deyrnas Unedig aros yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd neu adael yr Undeb Ewropeaidd?

**Yng Nghymru**, pleidleisiodd 854,572 i adael a 772,347 i aros - rhaniad o **52.5% / 47.5%** o blaid gadael. Ym Mlaenau Gwent y cafwyd y bleidlais uchaf dros adael (62.0%) ac yng Nghaerdydd y cafwyd y bleidlais isaf (40.0%).

**Roedd y ganran a bleidleisiodd yng Nghymru yn 71.7%** o gymharu â 72.2% yn y DU gyfan. Roedd y ganran a bleidleisiodd ar ei huchaf yn Sir Fynwy (77.8%) ac ar ei hisaf ym Merthyr Tudful (67.4%).

## 24 Ionawr 2017: Y Goruchaf Lys yn dyfarnu y dylai Senedd y DU benderfynu tanio Erthygl 50 (achos "Miller")

Mae'r **Goruchaf Lys yn cytuno** mai Senedd y DU (nid Llywodraeth y DU) ddylai benderfynu tanio Erthygl 50 o Gytundeb yr UE. Byddai gwneud hynny yn hysbysu'r UE o fwriad y DU i adael a dechrau cyfnod dwy flynedd o gyfri'r dyddiadau cyn ymadael.

Roedd y dyfarniad yn arwyddocaol ar gyfer datganoli am ddau reswm:

1. ailddatganodd yn ddiamwys yr egwyddor o sofraniaeth seneddol (DU), gan ladd unrhyw syniad o sofraniaeth ar y cyd â'r deddfwrfeydd datganoledig; a
2. roedd yn golygu nad oedd dim amheuaeth mai confensiwn gwleidyddol, ac nid cyfreithiol, yw **Confensiwn Sewel**, a oedd felly'n golygu nad oedd modd i'r llysoedd ei orfodi.

Ers Brexit, gwelwyd cynnydd sylweddol yng **nghyfreithiau'r DU sy'n cael eu pasio heb gydsyniad datganoledig**. Nid yw'n hysbys i ba raddau y cyfrannodd dyfarniad Miller at hyn.

## 16 Mawrth 2017: Senedd y DU yn rhoi pŵer i'r Prif Weinidog hysbysu'r UE o fwriad y DU i adael

*Ni chynhaliwyd pleidlais ar gydsyniad yn y Senedd.*

Cafodd **Deddf yr UE (Hysbysiad am Ymadael) 2017** Gydsyniad Brenhinol ar 16 Mawrth 2017. Mae'r Ddeddf yn cynnwys dau gymal sy'n awdurdodi'r Prif Weinidog i hysbysu'r UE o fwriad y DU i adael.

## 29 Mawrth 2017: Y DU yn tanio Erthygl 50, gan ddechrau cyfnod dwy flynedd o gyfri'r dyddiau cyn gadael yr UE

Mae Prif Weinidog y DU, Theresa May, yn hysbysu **Llywydd y Cyngor Ewropeaidd**, Donald Tusk, o fwriad y DU i adael yr UE ac Euratom. Mae gweithredu Erthygl 50(2)

o'r Cytuniad ar yr UE yn dechrau cyfnod o ddwy flynedd o gyfrif y dyddiau cyn gadael y DU.

## 16 Hydref 2017: Llywodraethau'r DU yn cytuno i sefydlu fframweithiau cyffredin mewn meysydd a gyd-gysylltwyd neu a lywodraethwyd yn flaenorol gan yr UE

Cytundebau rhwng pedair llywodraeth y DU ar sut i reoli gwahaniaethau rhwng y pedair gwlad mewn meysydd a lywodraethwyd neu a gydlynwyd yn flaenorol ar lefel yr UE yw **fframweithiau cyffredin**. Dylai newidiadau a gynigir i ddeddfwriaeth gan unrhyw un o'r pedair gwlad yn un o'r **26 o feysydd a gwmpesir gan fframwaith cyffredin** gael eu trafod gan y grwpiau rhynglywodraethol a sefydlwyd gan y fframwaith perthnasol cyn i lywodraeth eu cyflwyno i'w deddfwrfa. Mae hyn yn newid sylweddol i'r broses ddeddfu yn y DU.

## 6 Mehefin 2018: Cyfraith frys a basiwyd gan y Senedd yn cael Cydsyniad Brenhinol

*Cafodd y Ddeddf ei phasio yn y Senedd ar 21 Mawrth 2018.*

***Canlyniad y bleidlais**: O blaid 39, Yn erbyn 13, Ymatal 1.*

Dechreuodd **Deddf Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) 2018** fel Bil Brys a gyflwynwyd ar 7 Mawrth 2018 gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ar y pryd, a'r cyn Brif Weinidog, Mark Drakeford AS.

Byddai'r Ddeddf yn:

1. diogelu cyfraith yr UE sy'n ymwneud â phynciau sydd wedi'u datganoli i Gymru pan fyddai'r DU yn gadael yr UE;
2. sicrhau bod deddfwriaeth sy'n cwmpasu'r pynciau hyn yn gweithio'n effeithiol ar ôl i'r DU adael yr UE;
3. galluogi Gweinidogion Cymru i ddeddfu i sicrhau cyfatebiaeth rheoleiddiol â'r UE er mwyn sicrhau bod busnesau Cymru yn parhau i gael mynediad i farchnad yr UE;
4. creu sefyllfa ddiofyn yn y gyfraith lle yr oedd angen cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn i unrhyw newidiadau gael eu gwneud gan Weinidogion y DU i ddeddfwriaeth ddatganoledig o fewn cwmpas cyfraith yr UE.

Byddai'r Ddeddf yn cael ei diddymu'n ddiweddarach ar 22 Tachwedd 2018 (gweler y dyddiad hwn isod am ragor o wybodaeth).

Aeth deddfwriaeth debyg yn ei blaen yn yr Alban a chafodd Gydsyniad Brenhinol ar 29 Ionawr 2021. Mae **Deddf Ymadael â'r UE (Parhad) (Yr Alban) 2021** yn dal i fod mewn grym heddiw.

## 26 Mehefin 2018: Deddf yr UE (Ymadael) 2018 yn cael Cydsyniad Brenhinol

*Cynhaliwyd pleidlais ar gydsyniad yn y Senedd a rhoddwyd cydsyniad ar 15 Mai 2018.*

***Canlyniad y bleidlais**: O blaid 46, Yn erbyn 9, Ymatal 0.*

Mae tair prif swyddogaeth i **Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018**. Mae'n:

1. diddymu Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 a oedd yn gwneud cyfraith yr UE yn gymwys yn awtomatig yn y DU;
2. trosi cyfraith yr UE i gyfraith y DU ar y diwrnod yr oedd y DU yn gadael yr UE (11pm, 31 Ionawr 2020) a chreu categori newydd o gyfraith y DU, sef cyfraith yr UE a ddargedwir; a
3. rhoi pwerau dros dro i Weinidogion y DU a Chymru i ymdrin â diffygion fel bod y gyfraith yn gweithredu'n effeithiol.

Diwygiodd Deddf yr UE (Ymadael) 2018 Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn unol â hynny, gan gynnwys dileu'r gofyniad i Ddeddfau'r Senedd fod yn gydnaws â chyfraith yr UE.

Yn wreiddiol, **argymhellodd Llywodraeth Cymru y dylai'r Senedd atal ei chydsyniad** i Fil yr UE (Ymadael). Yn dilyn diwygiadau a **chytundeb rhynglywodraethol** gyda Llywodraeth y DU, **argymhellodd Llywodraeth Cymru y dylai'r Senedd gydsynio i'r Bil**.

## 22 Tachwedd 2018: Llywodraeth Cymru yn diddymu cyfraith frys

Yn dilyn **cytundeb rhynglywodraethol** rhwng y DU a llywodraethau datganoledig ar Fil yr UE (Ymadael) a sefydlu **fframweithiau cyffredin**, cytunodd Llywodraeth Cymru i ddiddymu Deddf Cyfraith sy'n Deillio o'r UE (Cymru) 2018.

Daeth **Rheoliadau Deddf Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) 2018 (Diddymu) 2018** i rym ar 22 Tachwedd 2018. Diddymodd y rheoliadau y Ddeddf yn ei chyfanrwydd.

## 17 Hydref 2019: Y DU a'r UE yn cytuno ar Gytundeb Ymadael

*Ni chynhaliwyd pleidlais ar gydsyniad yn y Senedd.*

Mae'r **Cytundeb Ymadael** yn gytuniad cyfraith ryngwladol rhwng y DU a'r UE. Mae ond yn ymdrin â gwahanu'r DU oddi wrth yr UE ac Euratom.

Mae cytuniadau rhyngwladol yn destun proses graffu yn Senedd y DU ond cafodd hyn ei ddatgymhwyso ar gyfer y Cytundeb Ymadael gan adran 32 o **Ddeddf yr UE (Cytundeb Ymadael) 2020**.

Roedd y Cytundeb Ymadael yn nodi y byddai'r DU yn dechrau ar gyfnod pontio pan fyddai'n gadael yr UE tra bod telerau'r berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol yn cael eu negodi. Byddai hyn yn parhau o 1 Chwefror 2020 tan 31 Rhagfyr 2020.

Mae'r Cytundeb Ymadael yn cynnwys **Protocol Gogledd Iwerddon**. Mae'n diogelu hawliau dinasyddion y DU a'r UE sy'n byw yn nhiriogaeth y llall ac yn nodi rhwymedigaethau ariannol y DU i'r UE. Sefydlodd **drefniadau llywodraethu** i oruchwylio ei weithrediad. Nid yw llywodraethau Cymru a'r Alban yn mynychu'r cyfarfodydd hyn.

Newidiwyd rhannau o'r Protocol gan **Fframwaith Windsor** ym mis Chwefror 2023. Er bod y Protocol yn dal i fodoli, yn aml cyfeirir at y ddau gytundeb gyda'i gilydd fel Fframwaith Windsor.

## 23 Ionawr 2020: Deddf yr UE (Cytundeb Ymadael) 2020 yn cael Cydsyniad Brenhinol

*Cynhaliwyd pleidlais ar gydsyniad yn y Senedd a chafodd cydsyniad ei atal ar 21 Ionawr 2018.*

***Canlyniad y bleidlais**: O blaid 15, Yn erbyn 35, Ymatal 0.*

Mae **Deddf yr UE (Cytundeb Ymadael)**

1. yn rhoi effaith i'r Cytundeb Ymadael mewn cyfraith ddomestig; a
2. delio â materion eraill yn ymwneud â gwahanu, megis sut y byddai cyfraith yr UE yn berthnasol yn y DU yn ystod ac ar ôl y cyfnod pontio. Un enghraifft bwysig yw y byddai corff newydd o gyfraith, a elwir yn gyfraith yr UE a ddargedwir, yn cael ei greu ar ddiwedd y cyfnod pontio.

**Argymhellodd Llywodraeth Cymru y dylai'r Senedd atal ei chydsyniad** i Fil yr UE (Cytundeb Ymadael).

## 31 Ionawr 2020: Y DU yn gadael yr UE ac yn dechrau ar y cyfnod pontio

Gadawodd y DU yr UE am 11pm GMT ar 31 Ionawr 2020 pan ddaeth y Cytundeb Ymadael i rym am hanner nos CET. Dechreuodd hyn gyfnod pontio Brexit a fyddai'n dod i ben ar 31 Rhagfyr 2020.

Yn ystod y cyfnod pontio, arhosodd y trefniadau yr un fath at ei gilydd. Er enghraifft, arhosodd y DU yn rhan o Farchnad Sengl yr UE a'r undeb tollau, cyfrannodd at gyllideb yr UE a pharhaodd i gymhwyso cyfreithiau a rheolau'r UE. Fodd bynnag, nid oedd y DU bellach yn cael ei chynrychioli yn sefydliadau'r UE ac nid oedd ganddi hawliau pleidleisio. Gadawodd 73 ASE y DU, gan gynnwys **pedwar o Gymru**, eu seddi ar 31 Ionawr 2020.

Dechreuodd y cyfnod pontio broses o gyfri'r dyddiadau i'r DU a'r UE gytuno ar delerau eu perthynas ar ôl Brexit, a fyddai'n dechrau ar 1 Ionawr 2021.

Parhaodd y negodiadau drwy gydol 2020 ar yr hyn a fyddai'n dod yn ddiweddarach yn **Gytundeb Masnach a Chydweithredu**, a gyhoeddwyd ar 24 Rhagfyr 2020.

## 17 Rhagfyr 2020: Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 yn cael Cydsyniad Brenhinol

*Cynhaliwyd pleidlais ar gydsyniad yn y Senedd a chafodd cydsyniad ei atal ar 8 Rhagfyr 2020.*

***Canlyniad y bleidlais**: O blaid 15, Yn erbyn 36, Ymatal 0.*

Mae **Deddf Marchnad Fewnol y DU**:

1. yn sefydlu'r rhagdybiaeth (yn gyffredinol) y dylai nwyddau, gwasanaethau a chymwysterau proffesiynol y gellir eu gwerthu neu eu cydnabod mewn un rhan o'r DU allu cael eu gwerthu neu eu cydnabod mewn unrhyw ran arall o'r DU, hyd yn oed os yw'r gyfraith yn wahanol;
2. yn cyflwyno "egwyddorion mynediad i'r farchnad" ar gyfer nwyddau a gwasanaethau. Mae'r rhain yn golygu, hyd yn oed os bydd y Senedd yn pasio cyfraith i wahardd neu reoleiddio cynnyrch penodol, dim ond ar rywbeth a gynhyrchir yng Nghymru neu a gaiff ei fewnforio'n uniongyrchol i Gymru o'r tu allan i'r DU y gellir ei gorfodi. Nid oes rhaid i unrhyw beth sy'n dod i Gymru o ran

arall o'r DU gydymffurfio â'r gyfraith hon os yw'n dod o fewn cwmpas y Ddeddf, oni bai ei fod wedi'i eithrio'n benodol;

3. yn sefydlu **Swyddfa'r Farchnad Fewnol** a all ymchwilio i effaith deddfwriaeth a gynigir neu a wneir gan unrhyw un o bedair deddfwrfa'r DU ar weithrediad Marchnad Fewnol y DU; ac
4. yn gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru mewn perthynas â Phrotocol Gogledd Iwerddon a lle Gogledd Iwerddon ym marchnad fewnol y DU.

Nid yw Deddf Marchnad Fewnol y DU yn effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ond mae'n effeithio ar effaith ymarferol ei chyfreithiau pan fyddant mewn grym.

Cytunwyd ar welliant allweddol yn ystod taith y Bil drwy Dŷ'r Arglwyddi sy'n galluogi meysydd a lywodraethir gan fframwaith cyffredin i gael eu heithrio o gwmpas y Ddeddf. Fodd bynnag, dim ond Gweinidogion Llywodraeth y DU all ychwanegu eithriadau at y Ddeddf.

**Argymhellodd Llywodraeth Cymru y dylai'r Senedd atal ei chydsyniad** i'r Bil. Mae rhagor o wybodaeth yn ein **crynodeb o'r Ddeddf**.

## 24 Rhagfyr 2020: Y DU a'r UE yn cytuno ar Gytundeb Masnach a Chydweithredu

*Ni chynhaliwyd pleidlais ar gydsyniad yn y Senedd.*

Cytuniad rhyngwladol rhwng y DU a'r UE yw'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Mae ond yn ymdrin â'u cydweithrediad ar ôl Brexit.

Cytunwyd arno ar 24 Rhagfyr 2020 ac fe'i llofnodwyd ar 30 Rhagfyr 2020. Roedd yn gymwys dros dro o 1 Ionawr 2021 a daeth i rym yn llawn ar 1 Mai 2021, ar ôl cael ei gymeradwyo gan Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd.

Cytunwyd ar gytundebau cydweithredu ar faterion niwclear a diogelwch gwybodaeth gyfrinachol ochr yn ochr â'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

Mae cytuniadau rhyngwladol yn destun proses graffu yn Senedd y DU ond cafodd hyn ei ddatgymhwyso ar gyfer y Cytundeb Masnach a Chydweithredu gan adran 32 o **Ddeddf yr UE (Perthynas yn y Dyfodol) 2020**.

## 31 Rhagfyr 2020: Deddf yr UE (Perthynas yn y Dyfodol) 2020 yn cael Cydsyniad Brenhinol

*Ni chynhaliwyd pleidlais ar gydsyniad yn y Senedd.*

*Cafodd y **Senedd ei galw'n ôl** o doriad y Nadolig ar 30 Rhagfyr 2020 i drafod diwedd y cyfnod pontio. **Cynhaliwyd pleidlais ar gynnig** a oedd yn nodi nad oedd y Senedd mewn sefyllfa i benderfynu ar gydsyniad.*

***Canlyniad y bleidlais ar y cynnig**: O blaid 28, Yn erbyn 24, Ymatal 0.*

Mae'r Ddeddf:

1. yn gweithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu, y **Cytundeb Niwclear Sifil** a'r **Cytundeb Diogelu Gwybodaeth**, mewn cyfraith ddomestig;
2. yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru weithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu mewn meysydd datganoledig;
3. yn gosod gweithdrefnau ar gyfer arfer pwerau Gweinidogion Cymru yn y Senedd;
4. yn gwneud darpariaeth bellach yn ymwneud â'r berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol, gan gynnwys ei gwneud yn ofynnol i'r holl ddeddfwriaeth ddomestig gael ei darllen yn unol â'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn ôl-weithredol.

## 31 Rhagfyr 2020: Diwedd cyfnod pontio Brexit

Daeth cyfnod pontio Brexit i ben ar 31 Rhagfyr 2020.

Er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl ar bethau a chynnal y status quo, troswyd cyfraith yr UE fel yr oedd ar y dyddiad hwn yn gyfraith ddomestig, gan greu ciplun mewn amser o gyfraith yr UE. Galwyd y corff newydd hwn o gyfraith y DU yn gyfraith yr UE a ddargedwir.

Yn 2023, byddai Llywodraeth y DU yn cyflwyno deddfwriaeth yn rhoi pwerau eang i Weinidogion y DU a Chymru i wneud newidiadau i gyfraith yr UE a ddargedwir. **Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023** yw hon.

## 1 Ionawr 2021: Perthynas newydd rhwng y DU a'r UE yn dod i rym

Daeth y Cytundeb Masnach a Chydweithredu a'r cytundebau cysylltiedig i rym dros dro ar 1 Ionawr 2021 a daethant i rym yn llawn ar 1 Mai 2021, ar ôl cael eu cymeradwyo gan Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **ddadansoddiad** o oblygiadau'r berthynas newydd rhwng y DU a'r UE i Gymru a busnesau Cymru ar 12 Chwefror 2021.

## 1 Mai 2021: Y Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn dod i rym yn llawn

Daeth y Cytundeb Masnach a Chydweithredu i rym yn llawn ar 1 Mai 2021, ar ôl cael ei gymeradwyo gan Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd.

## 13 Mehefin 2022: Cyflwyno Bil Protocol Gogledd Iwerddon, a gafodd ei oedi'n ddiweddarach

*Cynhaliwyd pleidlais ar gydsyniad yn y Senedd a chafodd cydsyniad ei atal ar 22 Tachwedd 2022.*

***Canlyniad y bleidlais**: O blaid 15, Yn erbyn 35, Ymatal 0.*

Mae Protocol Gogledd Iwerddon yn rhan o'r Cytundeb Ymadael, sef cytundeb rhyngwladol rhwng y DU a'r UE.

**Byddai'r Bil**:

1. yn datgymhwyso rhannau o Brotocol Gogledd Iwerddon a'r Cytundeb Ymadael mewn cyfraith ddomestig;
2. yn grymuso Gweinidogion y DU i ddatgymhwyso mwy o rannau yn y dyfodol ac i roi trefniadau newydd ar waith heb fewnbwn gan yr UE a heb ei gydsyniad;
3. yn galluogi Gweinidogion y DU i drosglwyddo eu pwerau i wneud rheoliadau i Weinidogion Cymru; a
4. yn caniatáu i Weinidogion y DU benderfynu ar drefniadau craffu yn y Senedd.

**Argymhellodd Llywodraeth Cymru y dylai'r Senedd atal ei chydsyniad** i'r Bil. Arweiniodd y gwaith craffu ar y Bil at **ddadl ddigynsail** ar rôl cyfraith ryngwladol yn y Senedd a sut y dylai ymateb.

Nid aeth y Bil yn ei flaen fel un o amodau **Fframwaith Windsor**.

## 27 Chwefror 2023: Y DU a'r UE yn cytuno ar Fframwaith Windsor

*Ni chynhaliwyd pleidlais ar gydsyniad yn y Senedd.*

Mae **Fframwaith Windsor** wedi newid rhannau o Brotocol Gogledd Iwerddon mewn perthynas â masnach, marchnad fewnol y DU, a llais Gogledd Iwerddon

wrth wneud penderfyniadau.

Cytunodd Llywodraeth y DU **i beidio bwrw ymlaen** gyda Bil Protocol Gogledd Iwerddon. Cytunodd yr UE:

- **i beidio â bwrw ymlaen** gyda **saith achos tor-cyfraith** yn erbyn y DU; a
- bwrw ymlaen â rhoi mynediad i'r DU i raglenni gwyddoniaeth ac ymchwil yr UE, gan gynnwys rhaglen Horizon gwerth €96 biliwn.

Mae'r Fframwaith yn cael y clod am wella'r berthynas rhwng y DU a'r UE ac yn gyffredinol **cafodd ei chroesawu gan Lywodraeth Cymru** er nad ymgynghorwyd â hi ynghylch y newidiadau. Yn ddiweddarach, byddai Llywodraeth Cymru yn cydsynio i reoliadau'r DU i roi'r Fframwaith ar waith.

Mae rhagor o wybodaeth yn ein herthygl, **Cymru a Fframwaith Windsor**.

## 29 Mehefin 2023: Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 yn cael Cydsyniad Brenhinol

*Cynhaliwyd dwy bleidlais ar gydsyniad yn y Senedd a chafodd cydsyniad ei atal ar 28 Mawrth 2023 a 6 Mehefin 2023.*

***Canlyniad y bleidlais gyntaf****: O blaid 13, Yn erbyn 38, Ymatal 0.*

***Canlyniad yr ail bleidlais****: O blaid 17, Yn erbyn 36, Ymatal 0.*

Er mwyn sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl yn sgil gadael yr UE, trodd y DU gyfraith yr UE yn gyfraith ddomestig a'i galw'n gyfraith yr UE a ddargedwir. Roedd hyn yn golygu bod cyfreithiau a oedd ar waith cyn Brexit yn aros yn eu lle gyda'r nod o osgoi bylchau mewn meysydd pwysig megis safonau cynnyrch, lles anifeiliaid a chyfraith cyflogaeth. Daeth cyfraith yr UE a ddargedwir yn gorff penodol o gyfraith ond mae gwahaniaeth barn o hyd ynghylch yr hyn y dylid ei wneud â hi.

Mae'r Ddeddf yn rhoi rhai o gynlluniau Llywodraeth y DU ar gyfer cyfraith yr UE a ddargedwir ar waith ac yn rhoi pwerau i Weinidogion y DU a Chymru wneud newidiadau yn y dyfodol.

**Argymhellodd Llywodraeth Cymru y dylai'r Senedd atal ei chydsyniad** i'r Bil ym mhob un o'i bump **Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol**. Caiff Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol eu gosod yn y Senedd pan fydd Bil y DU yn ymdrin â meysydd polisi sydd wedi'u datganoli i Gymru. Yna bydd yr Aelodau'n pleidleisio ar a ddylai'r Senedd roi cydsyniad i Senedd y DU ddeddfu ar ei rhan ai peidio.

Mae'r Ddeddf yn:

1. dirymu rhai o gyfreithiau'r UE a ddargedwir, a daethant i ben ar 31 Rhagfyr 2023. Mae hyn yn cynnwys y 587 o eitemau cyfraith yr UE a ddargedwir a restrir yn Atodlen 1, hawliau sy'n deillio o'r UE, egwyddor goruchafiaeth ac egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE;
2. ailenwi cyfraith yr UE a ddargedwir a oedd yn weddill yn "gyfraith a gymhathwyd" o 1 Ionawr 2024;
3. rhoi pwerau i Weinidogion y DU a Chymru sy'n ei gwneud yn haws iddynt ddiwygio, diddymu a disodli cyfraith yr UE a ddargedwir a chyfraith a gymhathwyd;
4. rhoi pwerau i Weinidogion y DU a Chymru ail-greu effaith goruchafiaeth cyfraith yr UE a ddargedwir i raddau cyfyngedig mewn perthynas ag offerynnau penodol;
5. rhoi mwy o ddisgresiwn i lysoedd domestig wyro oddi wrth gyfraith achosion cyfraith yr UE a ddargedwir; a
6. diddymu'r **Targed Effaith Busnes** fel rhan o ddiwygiadau rheoleiddio eraill.

Nid oes unrhyw ofyniad ar Lywodraeth y DU i gael cydsyniad gan Weinidogion Cymru, na'r Senedd, wrth wneud newidiadau mewn meysydd datganoledig.

Mae rhaglen diwygio cyfraith yr UE a ddargedwir/cyfraith a gymhathwyd Llywodraeth y DU yn mynd rhagddi ac mae trefniant cydsynio anffurfiol ar waith lle y gofynnir am gydsyniad Llywodraeth Cymru, beth bynnag. Mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi cydsyniad anffurfiol ar y sail hon i reoliadau'r DU wneud newidiadau mewn meysydd datganoledig, megis yr amgylchedd. Hyd yn hyn, defnyddiwyd offerynnau statudol unigol i ddirymu hyd at 93 darn o gyfraith yr UE a ddargedwir ar y tro.

Mae rhagor o wybodaeth ar ein tudalen we, **Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir: ble ydym ni nawr?**

## 31 Ionawr 2024: Cyhoeddi Papur Gorchymyn Safeguarding the Union

*Ni chynhaliwyd pleidlais ar gydsyniad yn y Senedd.*

Tyngodd aelodau o Weithrediaeth Gogledd Iwerddon lw am y tro cyntaf ers dwy flynedd ar 3 Chwefror 2024. Roedd hyn yn dilyn cyhoeddi'r **Papur Gorchymyn Safeguarding the Union** gan Lywodraeth y DU ar 31 Ionawr a phasio **rheoliadau**

**newydd** ar 1 Chwefror. Mae'r rhain yn gwneud newidiadau er mwyn mynd i'r afael â phryderon y Blaid Unoliaethol Ddemocrataidd (DUP) am Fframwaith Windsor.

Fe wnaeth y ddogfen Safeguarding the Union:


- sefydlu strwythurau llywodraethu newydd rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr;
- newid rheolau masnach i gymell a hybu masnach rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr;
- darparu dros £3 biliwn i Weithrediaeth Gogledd Iwerddon i fynd i'r afael â'r pwysau ar gyflogau yn y sector cyhoeddus a darparu fformiwla Barnett wedi'i diweddaru ar gyfer Gogledd Iwerddon.

Fe wnaeth **un rheoliad** ymestyn **egwyddorion mynediad i'r farchnad** Deddf Marchnad Fewnol y DU i nwyddau o Ogledd Iwerddon. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion y DU gyhoeddi canllawiau ar sut i gydymffurfio â'r **ddyletswydd yn adran 46 o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU** gan roi sylw arbennig i le Gogledd Iwerddon ym marchnad fewnol a thiriogaeth dollau'r DU. Rhaid i weinidogion y gweinyddiaethau datganoledig bellach ystyried y canllawiau hyn wrth gyflawni swyddogaethau perthnasol.

Mae rhagor o wybodaeth yn ein herthygl, **Cymru a Diogelu'r Undeb**.

**Ynglŷn â'r llun:**

Symbol y ddraig ar wal allanol y Senedd yn erbyn cefndir o lechi Cymreig.



# Cyfraith ryngwladol yn y Senedd

Sara Moran



Sut y mae cyfraith ryngwladol yn cyd-fynd â'r broses ddeddfu yn y Senedd?

Roedd y **Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998** gwreiddiol yn cynnwys darpariaethau rhyngwladol sy'n gyfarwydd i ni yn **Neddf Llywodraeth Cymru 2006**. Fodd bynnag, heddiw maent yn berthnasol mewn cyd-destun tra gwahanol.

Mae'r erthygl hon yn olrhain eu gwreiddiau o'r statud a sefydlodd y Senedd hyd heddiw, lle mae cyfraith ryngwladol wedi disodli cyfraith yr UE fel prif ffynhonnell cyfraith allanol yn y DU.

Yn y Senedd, cododd hyn gwestiynau cyfansoddiadol newydd yn gyflym a oedd yn gofyn am edrych ar elfennau cyfraith ryngwladol y setliad datganoli mewn goleuni newydd.

## Rhwymedigaethau rhyngwladol

Mae cysylltiadau rhyngwladol yn fater sydd wedi'i gadw'n ôl i Lywodraeth y DU dan baragraff 10 o **Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru**.

Er bod cyfle o fewn y mater hwn sydd wedi'i gadw'n ôl i Lywodraeth Cymru weithredu mewn rhinwedd rhyngwladol, ni all wneud ymrwymiadau cyfreithiol. Dim ond Llywodraeth y DU all wneud hyn ar gyfer y DU, ac mae'n gwneud hynny ar ran y pedair gwlad. Cyfeirir at y rhain fel rhwymedigaethau rhyngwladol yn Neddf Llywodraeth Cymru.

Mae rhwymedigaethau rhyngwladol yn cwmpasu dyletswyddau ac ymrwymiadau cyfreithiol y mae'r DU wedi cytuno iddynt, neu reolau cyffredinol cyfraith ryngwladol.

Yn bwysig ddigon, mae gweithredu a pharchu rhwymedigaethau rhyngwladol yn swyddogaethau sydd wedi'u datganoli, sy'n golygu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru gydymffurfio â dyletswyddau cyfraith ryngwladol a'u rhoi ar waith mewn meysydd datganoledig. **Yn 2021, eglurodd** y cyn Brif Weinidog, Mark Drakeford AS, ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru:

> *ystyried rhwymedigaethau rhyngwladol wrth wneud penderfyniadau, gallent wynebu Adolygiad Barnwrol neu gamau gan yr Ysgrifennydd Gwladol am fethu â gwneud hynny.*

Mae Deddf Llywodraeth Cymru yn cynnwys y mecanweithiau a ganlyn sy'n dwyn Gweinidogion Cymru i gyfrif wrth ddilyn a gweithredu cyfraith ryngwladol.

## Gall Llywodraeth y DU ymyrryd

Mae gan Ysgrifennydd Gwladol Llywodraeth y DU bwerau i:

- gyfarwyddo Gweinidogion Cymru i gymryd camau i gydymffurfio ag unrhyw rwymedigaeth ryngwladol; neu
- eu cyfarwyddo i beidio â chymryd camau pe bai hynny'n anghydnaws â rhwymedigaethau rhyngwladol; neu
- ddirymu is-ddeddfwriaeth a wnaed gan Weinidogion Cymru os ystyrir ei bod yn anghydnaws â rhwymedigaethau rhyngwladol, neu'n anghydnaws â buddiannau amddiffyn neu ddiogelwch gwladol.

Mae'r pwerau hyn wedi'u cynnwys yn adran 82, ond nid ydynt erioed wedi cael eu defnyddio.

Mae adran 101(d) hefyd yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol atal y Senedd rhag pasio deddfau sy'n anghydnaws â rhwymedigaethau rhyngwladol, neu fuddiannau amddiffyn neu ddiogelwch gwladol.

## Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR)

Mae Gweinidogion Cymru, gan gynnwys y Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol, wedi'u gwahardd yn benodol rhag cymryd camau sy'n anghydnaws â hawliau'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae'r ddyletswydd hon i'w gweld yn adran 81 o Ddeddf Llywodraeth Cymru.

## Cymorth i Lywodraeth y DU

Mae cynorthwyo Llywodraeth y DU mewn perthynas â rhwymedigaethau rhyngwladol a chysylltiadau rhyngwladol o fewn cymhwysedd y Senedd. Mae hwn i'w weld ym mharagraff 10(3) o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru.

## Pŵer i wneud unrhyw ddatganiad ar unrhyw fater sy'n effeithio ar Gymru

Mewn datblygiad newydd yn 2023, cyfeiriodd Llywodraeth Cymru at ddarpariaeth arall o Ddeddf Llywodraeth Cymru ar gyfer materion rhyngwladol. **Mae adran 62 yn rhoi grym i** Weinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol i wneud sylwadau priodol am unrhyw fater sy'n effeithio ar Gymru. Roedd Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar y pŵer eang hwn pan **gyhoeddodd ei dadansoddiad** o gytundeb masnach Partneriaeth Gynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel.

Cefnogwyd y dull gweithredu hwn gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, ac fe'i **croesawyd gan Weinidog yr Economi ar y pryd, Vaughan Gething AS**, felly efallai y byddwn yn gweld y dull gweithredu hwn eto yn y dyfodol.

### Cod y Gweinidogion

Er nad yw'n ddyletswydd gyfreithiol, mae **Cod y Gweinidogion** gan Lywodraeth Cymru yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gydymffurfio â chyfraith ryngwladol a rhwymedigaethau cytuniadau.

## Brexit yn newid y ffocws

Roedd Deddf Llywodraeth Cymru yn cynnwys dyletswydd i gydymffurfio â chyfraith yr UE nes iddi gael ei dileu gan **Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018** a **Deddf yr UE (Cytundeb Ymadael) 2020**.

Roedd dileu'r ddyletswydd hon ledled y DU yn golygu bod cyfraith ryngwladol yn disodli cyfraith yr UE fel prif ffynhonnell cyfraith allanol yn y DU. Mae'r Cytundeb Ymadael a'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE yn gytuniadau cyfraith ryngwladol.

Yn y Senedd, rhoddodd y newid hwn ffocws a dibyniaeth newydd ar ddarpariaethau rhyngwladol Deddf Llywodraeth Cymru a chododd gwestiynau newydd ynglŷn â deddfu. Mae gweddill yr erthygl hon yn olrhain ymateb y Senedd i'r datblygiad digynsail hwn yn ystod y 25 mlynedd yn ei hanes.

## Confensiwn Sewel

Cododd dwy senario yn gyflym wrth i'r DU adael yr UE a gododd gwestiynau sylfaenol am y berthynas rhwng **Confensiwn Sewel** a rhwymedigaethau rhyngwladol.

**Yn y senario gyntaf, gofynnwyd:**

Beth sy'n digwydd pan fydd yn rhaid i Weinidogion Cymru roi rhwymedigaethau rhyngwladol ar waith gan ddefnyddio pwerau o Filiau'r DU yr oeddent yn eu gwrthwynebu, ac y gwrthododd y Senedd roi cydsyniad ar eu cyfer?

Cododd y senario hon gyntaf wrth graffu ar y **Bil Cymwysterau Proffesiynol**, sydd bellach y Ddeddf, a sefydlodd system newydd ar gyfer sut y mae cymwysterau proffesiynol a enillir dramor yn cael eu cydnabod yn y DU ar ôl Brexit.

Pan ofynnodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y cwestiwn uchod i'r **cyn Brif Weinidog**, Mark Drakeford AS, **dywedodd**, er bod Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu'r Bil, y byddai Gweinidogion Cymru, serch hynny, yn defnyddio eu pwerau "yn gyfrifol". Dyma, meddai, pam mae gan Lywodraeth Cymru a'r Senedd "[f]uddiannau cyfreithlon a hanfodol" mewn rhwymedigaethau rhyngwladol mewn meysydd datganoledig.

**Yn yr ail senario, gofynnwyd:**

Beth sy'n digwydd os gofynnir i'r Senedd gydsynio i Filiau'r DU a allai dorri cyfraith ryngwladol?

Mae Deddf Llywodraeth Cymru yn gosod dyletswyddau ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd i gydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol, ac yn rhoi pwerau i Lywodraeth y DU ymyrryd os na fyddant yn gwneud hynny. Ond nid yw'n cyfeirio at yr hyn a fyddai'n digwydd pan fydd y sefyllfa'n cael ei gwrthdroi a bod amheuaeth ynghylch cydnawsedd Bil y DU pan ofynnir i'r Senedd am gydsyniad.

Cododd y senario hwn gyntaf yn ystod **gwaith craffu'r Senedd ar Fesur Protocol Gogledd Iwerddon**, y **cytunodd Llywodraeth y DU** y byddai'n torri'r Cytundeb Ymadael rhwng y DU a'r UE. **Eglurodd y Cwnsler Cyffredinol, Mick Antoniw AS, i'r Senedd**:

> *It creates a particular constitutional problem for us, I believe, if it is in breach of international law, because we will be asked to give consent to the legislation, and whether we can actually consent to something that effectively legitimises unlawfulness.*

Er mwyn mynd i'r afael â'r sefyllfa hon, datblygodd y Pwyllgor Ddeddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad **safbwynt newydd**. Dywedodd:

> *Pe bai'r Senedd yn penderfynu rhoi ei chydsyniad i'r Bil, gallai hynny gyfrannu at dorri cyfraith ryngwladol a byddai'n golygu nad oedd Senedd Cymru yn bodloni rhwymedigaethau rhyngwladol, a fyddai'n groes i ysbryd y setliad datganoli.*

Er mai cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yn y pen draw yw sicrhau bod y DU yn cydymffurfio â chyfraith ryngwladol, ers hynny mae'r Pwyllgor wedi ailgymhwyso'r gydnabyddiaeth hon o senarios nad ydynt yn dod o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru yn ystod y gwaith craffu ar y **Bil Mudo Anghyfreithlon** a'r **Bil Gweithgarwch Economaidd Cyrff Cyhoeddus (Materion Tramor)**.

## Craffu ar gytuniadau

Fel y cydnabu'r **cyn Brif Weinidog**, Mark Drakeford AS, gall gweithredu cytuniadau ddod o fewn cymhwysedd y Senedd, gallant roi dyletswyddau ar Weinidogion Cymru a gall olygu mai cyrff cyhoeddus Cymru fydd yn gyfrifol am eu cyflawni.

Yn 2019, y Senedd oedd y senedd ddatganoledig gyntaf i sefydlu **proses graffu bwrpasol ar gytuniadau**. Os yw cytuniad a osodir yn Senedd y DU yn cwmpasu meysydd datganoledig, neu os oes ganddo oblygiadau polisi pwysig i Gymru, mae pwyllgorau'r Senedd yn asesu ei effaith ac yn adrodd i'r Senedd a Phwyllgor Cytundebau Rhyngwladol Tŷ'r Arglwyddi.

Mae'r broses wedi sicrhau **buddugoliaethau cynnar i broses graffu'r Senedd**. Llwyddwyd i gael gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru na fyddai'n cael ei darparu fel arall, sicrhawyd bod y wybodaeth hon ar gael i'r cyhoedd a chafodd y ddealltwriaeth o oblygiadau cyfansoddiadol ac ymarferol cytuniadau ei gwella.

Mae'r **deddfwrfeydd datganoledig** hefyd yn gallu ymgorffori cytuniadau yn uniongyrchol yn eu cyfraith ddomestig, arfer a ailgadarnhawyd gan y **Goruchaf Lys yn 2021**. Mae Llywodraeth Cymru a'r Senedd **wedi cael cydnabyddiaeth gan y Cenhedloedd Unedig** am wneud hynny.

## Casgliad

Nid yw'r gwaith i feithrin gwell dealltwriaeth o gyfraith ryngwladol yn y Senedd yn dangos unrhyw arwydd ei fod yn arafu, ac mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb yn gadarnhaol i hynny.

Er enghraifft, mae wedi cytuno i'w gwneud yn glir pryd y bydd Biliau'r DU y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer yn **gorgyffwrdd â rhwymedigaethau rhyngwladol** a **chynnwys dadansoddiad o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu** lle y nodir bod materion yn ymwneud â'r cytundeb rhwng y DU a'r UE.

Er bod yr agweddau rhyngwladol ar Ddeddf Llywodraeth Cymru yn gymharol sefydlog yn ystod aelodaeth o'r UE, mae'r blynyddoedd ers Brexit wedi mynnu ffocws newydd ar y rhannau llai hysbys hyn o'n setliad datganoli.

Mae defnyddio Deddf Llywodraeth Cymru yn y modd hwn am y tro cyntaf ers 25 mlynedd wedi dod ag ystyr newydd i le cyfraith ryngwladol yn y Senedd, ac wedi newid y broses ddeddfu yng Nghymru.



**▼ Ynglŷn â'r llun:**

Siambr y Senedd oddi uchod.



# Dau ddegawd o ddiwygio: sut y mae trafodaethau am setliad cyfansoddiadol Cymru wedi siapio'r Senedd?

Josh Hayman



Mae'r ffordd y mae deddfau'n cael eu gwneud ar gyfer Cymru wedi cael ei dylanwadu'n drwm dros y 25 mlynedd diwethaf gan gyfres o gomisiynau, pwyllgorau a phaneli a gafodd eu cynnull i asesu gweithrediad y setliad datganoli.

Mae'r cyrff hyn, sy'n aml yn cynnwys cyn-wleidyddion a gweision sifil, ochr yn ochr ag academyddion a chynrychiolwyr busnes a chymdeithas sifil, wedi chwarae rhan allweddol yn y broses o lywio'r broses ddeddfu yng Nghymru.

Bydd yr erthygl hon yn edrych ar y rôl y mae'r grwpiau hyn wedi'i chwarae a sut y mae eu canfyddiadau allweddol wedi dod i ddylanwadu ar ddeddfu yng Nghymru.

## Comisiwn Richard – golwg gyntaf ar ddiwygio

Yn gynnar yn nhymor cyntaf y Cynulliad, fel y'i gelwid ar y pryd, cytunodd Llafur Cymru a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, fel rhan o'u clymblaid, i sefydlu comisiwn annibynnol i ymchwilio i bwerau a threfniadau etholiadol y Cynulliad "**i sicrhau ei fod yn gallu gweithredu er lles gorau pobl Cymru**".

Cyhoeddodd y Comisiwn, a gadeiriwyd gan yr Arglwydd Richard, un o'r Arglwyddi Llafur a chyn arweinydd Tŷ'r Arglwyddi, **ei adroddiad** yn 2004. Roedd yn cynnwys cynnig i roi pwerau deddfu sylfaenol i'r Cynulliad, gan nodi materion a fyddai'n cael eu cadw'n ôl ar gyfer San Steffan. Wrth wneud hynny, argymhellodd y Comisiwn y dylai'r Cynulliad gynyddu mewn maint i 80 o aelodau a chael ei rannu'n ddau gorff ar wahân – gweithrediaeth a deddfwrfa – gan ddod â'r strwythur 'corff corfforedig' a oedd yn ei le ers 1999 i ben.

Rhoddwyd rhai o argymhellion y Comisiwn ar waith yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006, a sefydlodd set gyfyngedig o bwerau deddfu sylfaenol i'r Cynulliad, gyda'r posibilrwydd o ehangu'r pwerau hyn yn dilyn pleidlais mewn refferendwm, a gynhaliwyd yn 2011. Mae ein herthygl ar deddfu yng Nghymru yn trafod hyn yn fanylach.

## Comisiwn Silk – datganoli cyllidol a deddfwriaethol

Yn dilyn y bleidlais gadarnhaol yn refferendwm 2011, sefydlwyd y **Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru** (a elwir yn Gomisiwn Silk) fel rhan o gytundeb clymblaid Llywodraeth y DU rhwng y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol.

Cafodd y Comisiwn y dasg o adolygu "**trefniadau ariannol a chyfansoddiadol Cymru**". Fe'i cadeiriwyd gan Syr Paul Silk, cyn Glerc y Cynulliad, ac roedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r pedair plaid wleidyddol yn y Cynulliad a dau aelod annibynnol.

Cyhoeddwyd **adroddiad cyntaf** y Comisiwn ar ddatganoli cyllidol ym mis Tachwedd 2012. Gwnaeth yr adroddiad 33 o argymhellion y dywedodd y Comisiwn y byddent yn "grymuso Llywodraeth Cymru ac yn dod â mwy o gyfrifoldeb drwy roi i Gymru ei phwerau trethu a benthyca ei hun". Roedd yr adroddiad yn cyfeirio at ganfyddiadau **Comisiwn Holtham** ar Setliad Ariannu i Gymru. Cafodd llawer o'r argymhellion eu rhoi ar waith yn **Neddf Cymru 2014**.

Yn ei **ail adroddiad**, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2014, argymhellwyd y dylai'r model datganoli i Gymru gael ei ddisodli gan 'fodel cadw pwerau yn ôl', gyda deddfwriaeth newydd yn nodi'r pwerau a fyddai'n cael eu cadw'n ôl ar gyfer Senedd y DU. Argymhellodd hefyd y dylid datganoli pwerau dros elfennau o drafnidiaeth, caniatáu prosiectau ynni a phlismona.

Argymhellodd yr adroddiad hefyd y dylid cynyddu maint y Cynulliad "er mwyn iddo gyflawni ei swyddogaeth craffu yn well" ac y dylid cydnabod y sefydliad fel "sefydliad parhaol, gyhyd â bod mwyafrif pobl Cymru'n ewyllysio hynny".

Nodwyd ymateb Llywodraeth y DU i'r ail adroddiad yn '**Pwerau at Bwrpas**' a datblygwyd newidiadau i'r setliad datganoli yn **Neddf Cymru 2017**.

## Diwygio'r Senedd – sefydliad sy'n newid ac yn esblygu

Gan ragweld y bydd y Senedd yn cael pwerau newydd dros ei maint a'i threfniadau deddfwriaethol o dan **Ddeddf Cymru 2017**, sefydlwyd **Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad** i ddarparu:

> *cyngor cadarn, gwleidyddol ddiduedd ar nifer yr Aelodau sydd eu hangen i gynrychioli pobl Cymru yn effeithiol, y system etholiadol fwyaf addas, a'r oedran pleidleisio isaf*

Fe wnaeth y Panel, dan gadeiryddiaeth yr Athro Laura McAllister, gyfres o **argymhellion ar gyfer newidiadau** i faint y Senedd, ei system etholiadol a phwy allai bleidleisio yn etholiadau'r Senedd.

Rhoddwyd rhai o'r argymhellion hyn ar waith yn **Neddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020**, sef gostwng yr oedran pleidleisio i 16, caniatáu i ddinasyddion tramor penodol bleidleisio a newid enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Senedd Cymru neu Welsh Parliament.

Heb y consensws gwleidyddol i roi gweddill y diwygiadau a argymhellwyd gan y Panel Arbenigol ar waith, sefydlodd y Senedd **Bwyllgor Diwygio Etholiadol y Senedd** i edrych ar argymhellion y Panel ac amlinellu "**trywydd ar gyfer diwygio**"

fel sail i safbwyntiau polisi a maniffestos pleidiau gwleidyddol ar gyfer etholiad 2021 y Senedd.

Yn dilyn yr etholiad hwnnw, sefydlwyd **Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd** ym mis Hydref 2021 i lunio cynigion i'w cynnwys ym Mil Llywodraeth Cymru i ddiwygio'r Senedd. Gwnaeth y Pwyllgor 31 o argymhellion, yr oedd rhai ohonynt yn wahanol i'r rhai a wnaed mewn adroddiadau blaenorol a rhai ond wedi'u cytuno gan fwyafrif aelodau'r Pwyllgor yn unig.

Mae dau Fil Llywodraeth Cymru wedi'u cyflwyno i'r Senedd gyda'r nod o roi'r argymhellion hyn ar waith. Mae **Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)**, a basiwyd gan y Senedd **ar 8 Mai 2024**, yn ehangu maint y Senedd i 96 o Aelodau ac yn cyflwyno **system etholiadol rhestr gaeedig**. Mae **Bil Senedd Cymru (Rhestr Ymgeiswyr Etholiadol)**, a fyddai'n cyflwyno cwotâu rhywedd gorfodol ar gyfer etholiadau'r Senedd, yn dal i gael ei ystyried gan y Senedd.

## Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru – sgwrs sy'n parhau?

Nid cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon oedd diwedd y drafodaeth ar gyfansoddiad Cymru. Sefydlwyd **Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru** gan Lywodraeth Cymru, fel rhan o'i chytundeb cydweithio â Phlaid Cymru, ym mis Tachwedd 2021, gyda dau amcan bras:

1. ystyried a datblygu opsiynau i ddiwygio'n sylfaenol strwythurau cyfansoddiadol y Deyrnas Unedig, y mae Cymru yn parhau'n rhan annatod ohoni; a
2. ystyried a datblygu'r holl brif opsiynau blaengar i gryfhau democratiaeth Cymru a sicrhau gwelliannau i bobl Cymru.

Daeth **adroddiad terfynol** y Comisiwn, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2024, i'r casgliad fod y setliad datganoli presennol "mewn perygl o gael ei erydu'n raddol" a heb weithredu ar frys "ni fydd setliad hyfyw i'w ddiogelu". Argymhellodd y Comisiwn y dylid datganoli rhagor o bwerau dros feysydd fel cyfiawnder, plismona a gwasanaethau rheilffyrdd.

Er ei fod **wedi dod i'r casgliad** nad yw'r setliad presennol yn "sail ddibynadwy na chynaliadwy" ar gyfer llywodraethu Cymru, nid aeth mor bell ag argymell ffordd benodol ymlaen, gan nodi yn lle hynny dri "opsiwn hyfyw": atgyfnerthu datganoli, ffederaliaeth ac annibyniaeth.

Fodd bynnag, **ni chafodd adroddiad y Comisiwn gefnogaeth unfrydol** gan y Senedd, ac felly Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ystyried a gweithredu ei argymhellion.

## Newidiadau i ddod

Drwy gydol y cyfnod datganoli, bu trafodaeth barhaus bron am bwerau a maint y Senedd. Mae deddfwriaeth bellach wedi'i phasio a fydd yn cynyddu nifer Aelodau'r Senedd o 60 i 96.

Mae'n debygol y bydd hyn yn cael effaith sylweddol ar sut y mae'r Senedd yn gweithredu a'r capasiti sydd ar gael o fewn ei haelodaeth i gyflawni ei rôl o graffu ar Lywodraeth Cymru ac ar ddeddfwriaeth.